

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion



ADRODDIAD TROSOLWG ADOLYGIAD LLADDIAD DOMESTIG

'Betty'

Bu farw: Mai 2019

Review & Investigation

*Paul Johnston – Cadeirydd Annibynnol ac Awdur yr Adroddiad
Awst 2021 (Wedi'i gymeradwyo gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Hydref 2021)
Wedi'i gwblhau Rhagfyr 2023*

Mae'r adroddiad hwn yn eiddo i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion. Ni ddylid ei newid, ei ddiwygio, ei ddsbarthu na'i gyhoeddi heb ganiatâd penodol Cadeirydd yr adolygiad.

Dosbarthu

Bydd yr adroddiad llawn a therfynol hwn yn cael ei gyhoeddi gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion a bydd hefyd yn cael ei gopïo i'r sefydliadau a nodir isod. Ni fydd yr Adolygiadau Rheoli Unigol, cronolegau asiantaethau a dogfennaeth ategol asiantaethau yn cael eu rhannu:

- *Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Heddlu Dyfed Powys*
- *Cydlynnydd PDC*
- *Heddlu Dyfed-Powys*
- *Meddygfa Meddyg Teulu Betty*
- *Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Gwasanaethau Gofal Sylfaenol)*
- *Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion*
- *Bwrdd Rhanbarthol VAWDASV*
- *Bwrdd Diogelu Rhanbarthol*
- *Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed*
- *Comisiynydd Cam-drin Domestig*

TABL CYNNWYS

Adran	Disgrifiad	Tudalen
	Dosbarthu	2
	Rhagymadrodd	4
1	Cyflwyniad	5
2	Amserlenni'r adolygiad	7
3	Cyfrinachedd	7
4	Cwmpas a chylch gorchwyl yr adolygiad	8
5	Methodoleg	9
6	Cadeirydd yr adolygiad ac aelodau'r Panel	10
7	Prosesau sy'n cyd-redeg	11
8	Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb	11
9	Llywodraethu strategol	13
9.1	➤ Llywodraethu strategol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru	13
9.6	➤ Dioddefwyr gwryw cam-drin domestig	14
9.12	➤ Dyletswydd gyfreithiol	16
9.16	➤ 'Gofyn a Gweithredu'	16
9.18	➤ Defnyddio 'Gofyn a Gweithredu' gyda phobl hŷn	17
9.20	➤ Cam-drin domestig	17
9.24	➤ Ymddygiad sy'n gorfodol ac yn rheoli	19
10	Cymryd rhan yn yr adolygiad	21
10.3	➤ John	21
10.21	➤ Teulu Betty	24
10.23	➤ Cyfreithiwr Betty a John	25
10.31	➤ Ffrindiau Betty a John	26
10.32	• Ffrind Un	26
10.37	• Ffrind Dau	25
10.43	• Cymdogion Betty a John	27
11	Cysylltiad asiantaethau â Betty a John	28
11.21	➤ Dadansoddiad o gysylltiad yr heddlu a'r tîm brysbennu â Betty a John	34
11.23	➤ Dadansoddiad o'r cysylltiad â meddygfa'r Meddyg Teulu	34
12	Y cylch gorchwyl	35
13	Gwersi a ddysgwyd gan asiantaethau	41
14	Casgliadau	43
15	Argymhellion	44

Rhagymadrodd

Hoffai Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion fynegi pob cydymdeimlad tuag at deulu a ffrindiau Betty.

Roedd marwolaeth Betty yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiad Lladdiad Domestig o dan Adran 9 (3)(a) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004¹, sef bod ei gŵr wedi cyflawni ei lladdiad. (Plediodd yn euog yn ddiweddarach i'w dynladdiad).

Trwy'r adolygiad cyfan mae'r Panel Adolygu Lladdiad Domestig wedi ceisio gweld beth ddigwyddodd trwy lygaid Betty. Hoffem sicrhau pawb ein bod, wrth gynnal yr adolygiad hwn, wedi ceisio dysgu gwersi i wella ymateb sefydliadau mewn achosion o gam-drin domestig.

Hoffai Cadeirydd Annibynnol ac Awdur yr adolygiad fynegi ei werthfawrogiad am amser, ymrwymiad, a chyfraniadau gwerthfawr aelodau'r panel adolygu a'r awduron a gyfrannodd at yr adolygiad.

¹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/28/section/9>

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Hwn yw'r adroddiad Adolygiad Lladdiad Domestig (ALID) yn dilyn marwolaeth Betty ym mis Mai 2019 yn ei chartref yng Nghymru lle bu'n byw gyda'i gŵr John. Yn ddiweddarach plediodd John yn euog i ddynladdiad Betty. (Nid Betty a John yw eu henwau go iawn).
- 1.2 Nod ALID yw chwarae rhan mewn sicrhau newid ystyrion i leihau'r tebygolrwydd o laddiadau yn y dyfodol. Yn ystod yr adolygiad i farwolaeth Betty, roedd y panel adolygu yn chwilfrydig yn broffesiynol ac wedi mabwysiadu dull ymchwiliol i geisio deall deinameg perthynas Betty a John yn ogystal â'u safbwyntiau a'u profiadau unigol. Archwiliodd y panel a oedd gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau wedi eu cefnogi'n unigol neu ar y cyd, ac ystyriodd yn fwy cyffredinol pa ymatebion i gam-drin domestig oedd neu a allai fod wedi bod ar gael i'r ddau ohonynt, gan gynnwys yr hyn a allai fod wedi helpu neu lesteirio eu mynediad at gymorth. Wrth wneud hyn, yn ogystal â chynnwys gweithwyr proffesiynol, ceisiodd y panel ymgysylltu â'r rhai oedd yn adnabod Betty a John, gan gynnwys eu teulu, ffrindiau, cymdogion a'r gymuned leol.
- 1.3 Roedd Betty a John yn Saeson ac wedi symud i Gymru ar ôl iddynt ymddeol. Roedd Betty yn ei 70au hwyr adeg ei marwolaeth ac roedd John dros 80 oed. Roedden nhw wedi adnabod ei gilydd ers 60 mlynedd ac wedi bod yn briod ers 57 mlynedd. Doedd dim plant ganddyn nhw.
- 1.4 Bu Betty yn gweithio yn adran addysg awdurdod lleol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr cyn ymddeol yn gynnwys oherwydd afiechyd; gwneuthurwr tŵls oedd gwaith John. Roedden nhw'n mwynhau iechyd corfforol gweddol dda ac roedd y ddau yn cael ymgynghoriadau a chyswllt rheolaidd â'u Meddyg Teulu ac o dan ofal gwasanaethau gofal eilaidd yn ystod y cyfnod dan sylw.
- 1.5 Yn ôl ffrindiau a chymdogion (ac yn ôl John – gweler yn ddiweddarach) roedd ymddygiad Betty yn fwyfwy cecrus ac 'anodd' yn y blynyddoedd diwethaf ac roedd gwir bryder bod Betty yn sâl yn feddyliol. Er na chafodd unrhyw ddiagnosis ffurfiol ei wneud (neu asesiadau wedi'u cynnal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol – gweler yn ddiweddarach), roedd archwiliad post-mortem Betty wedi dangos tystiolaeth o glefyd Alzheimer cynnar.

Sylw: Mae'r Gymdeithas Alzheimer² yn dweud mai'r clefyd yma yw'r achos mwyaf cyffredin o ddementia. Mae amcangyfrifon yn dangos bod tua 44,000 o bobl yng Nghymru yn dioddef o ddementia wedi ei ddiagnosis a heb ei ddiagnosis, a bod cyfran sylweddol yn byw yn y gymuned lle mae gofal yn cael ei ddarparu gan ofalwyr teuluol yn bennaf. Mae'n ychwanegu efallai na fydd pobl â dementia yn gallu adnabod eu hanghenion, gwybod sut i'w bodloni, neu roi gwybod i bobl eraill beth sydd ei angen arnynt. Gall hyn achosi iddynt ymddwyn mewn ffyrdd a allai fod yn heriol i eraill, gan gynnwys ymddygiad ymosodol. Yn ôl y Gymdeithas gallai ymddygiad ymosodol fod yn ffordd i'r unigolyn geisio cael yr hyn sydd ei angen arno, neu gall fod yn arwydd o ymgais i gyfleu bod angen heb gael ei fodloni.

² <https://www.alzheimers.org.uk/about-dementia/types-dementia/alzheimers-disease>

- 1.6 Y diwrnod cyn i Betty farw cafodd hi a John ffræ. Gadawodd John y tŷ a gyrru i weld ffrind oedd yn byw yn Lloegr. Dywedodd wrth y ffrind fod Betty wedi bod yn gweiddi arno ac wedi bod yn taflu pethau o gwmpas y cartref a'i fod yn ofni y byddai wedi gwneud rhywbeth '*nasty*' pe bai wedi aros yno. Cynigiodd y ffrind wely i John am y noson, ond gwrthododd John gan ddweud bod rhaid iddo fynd adref i ofalu am Betty.
- 1.7 Yn gynnar y bore canlynol pan oedd Betty a John yn yr ystafell wely, dechreuon nhw ffræo. Yn ddiweddarach disgrifiodd John wrth yr heddlu sut roedd Betty wedi bod yn gweiddi a'i bod hi wedi bwrw ei sbectol o'i drwyn, a'i dorri. Dywedodd e wrth yr heddlu, "*It just all kicked off, I just lost it, I just had enough, I couldn't see the light at the end of the tunnel.*" Dywedodd wrth yr heddlu ei fod wedi cydio yn Betty am ei gwddf ac wedi ei hysgwyd i wneud iddi weld synnwyr. Ychwanegodd pan oedd Betty heb symud ar ôl iddo ryddhau ei afael ynddi ei fod wedi meddwl, "*Good God, I have done something bad. I've killed her, haven't I?*". Yna ffoniodd 999 a dweud wrth y sawl oedd yn delio â'r alwad ei fod yn meddwl ei fod wedi lladd ei wraig.
- 1.8 Cyrhaeddodd yr heddlu a'r parafeddygon tua 20 munud yn ddiweddarach, ond er gwaethaf eu hymdrechion gorau, doedd dim modd achub Betty.
- 1.9 Pan blediodd John yn euog i ddynladdiad Betty, cafodd ei ddedfrydu i dair blynedd a phedwar mis o garchar. Yng ngeiriau'r Barnwr, "*The simple fact here, [John], is that you killed your wife. It was no mercy killing – you killed her because you snapped... You snapped because, in your words, the red mist came down and, on your account, she either deliberately or accidentally knocked your glasses off... You throttled her with both hands with such force that she died. She must have been terrified as you throttled her, unable to fight you off or get you to stop.*"
- 1.10 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael bellach gan ffrindiau a chymdogion Betty a John yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, barn y panel ALID yw mai prif achos y ffræo a'r gwrthdaro rhwng y pâr oedd problemau iechyd meddwl Betty. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod John erioed wedi bod yn dreisgar neu'n gamdriniol mewn unrhyw ffordd arall tuag at Betty cyn y digwyddiadau a arweiniodd at ei marwolaeth.
- Sylw:** Mae'r panel adolygu yn awyddus i bwysleisio nad yw'n awgrymu mewn unrhyw ffordd mai Betty oedd ar fai am yr hyn ddigwyddodd.
- 1.11 Nid oedd John byth wedi ystyried ei hun yn ddiodefwr cam-drin domestig, ond roedd ei gyflwyniadau i'r heddlu, i'w Feddyg Teulu, ac i eraill yn sicr yn cyd-fynd â'r disgrifiad o rywun oedd yn dioddef cam-drin domestig. Wrth i'r adroddiad hwn fynd yn ei flaen fe welir nad oedd Betty yn ymwybodol ar y cyfan sut roedd ei hymddygiad yn effeithio ar John (a'i ffrindiau), ond yn y pen draw, roedd hi wedi sylweddoli bod angen cymorth arni. Ffoniodd wasanaeth eiriolaeth iechyd

cymunedol a oedd yn ei dro wedi rhoi gwybod i'w Meddyg Teulu, ond collwyd y cyfleoedd roedd y galwadau wedi'u cynnig i weithwyr proffesiynol ymyrryd.

2. AMSERLENNI'R ADOLYGIAD

- 2.1 Yn unol â'r protocol y cytunwyd arno, ym mis Mai 2019 rhoddodd yr heddlu wybod i Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion am amgylchiadau marwolaeth Betty oherwydd bod ei gŵr wedi ei lladd yn anghyfreithlon.
- 2.2 Mewn ymgynghoriad â phartneriaid lleol, y mae pob un ohonynt yn deall deinameg cam-drin domestig, hysbysodd Cadeirydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol y Swyddfa Gartref am y penderfyniad i gomisiynu Adolygiad Lladdiad Domestig ym mis Mehefin 2019. Dechreuodd yr adolygiad ym mis Ionawr 2020 a daeth i ben ym mis Mai 2021. Cyfarfu'r panel adolygu wyneb yn wyneb ym mis Ionawr a Mawrth 2020 ac wedi hynny, oherwydd Covid-19, cynhaliwyd cyfarfodydd trwy blatfform fideo-gynadledda ynghyd â nifer o sgysiau ffôn ac ebost.

3. CYFRINACHEDD

- 3.1 Fel y soniwyd uchod, mae Betty a John yn ffugenwau. Dewiswyd yr enwau gan Gadeirydd yr adolygiad (a chytunwyd arnynt gan John yn ystod cyfweiliad ag ef yn y carchar). Mae Canllawiau Statudol Aml-Asiantaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer Cynnal Adolygiadau Lladdiad Domestig (Rhagfyr 2016)³ yn nodi bod yn rhaid i fanylion personol a nodweddion adnabod eraill, er enghraifft union ddyddiadau, barhau'n ddiennw mewn adroddiadau trosolwg ALID a chrynodebau gweithredol cysylltiedig. Mae hyn er mwyn diogelu hunaniaeth y dioddefwr, y cyflawnwr, eu teuluoedd, ffrindiau a chymdogion, a'r staff asiantaeth a fu'n ymwneud â nhw.
- 3.2 Mae'r adroddiad hwn wedi'i farcio '*Sensitif Swyddogol*' o dan Ddosbarthiadau Diogelwch y Llywodraeth 2018⁴.
- 3.3 Cytunodd pob aelod o'r panel adolygu â'r egwyddorion cyfrinachedd canlynol yn ystod y broses adolygu:
- *Byddai gwybodaeth a drafodir gan unrhyw gynrychiolydd asiantaeth o fewn cwmpas cyfarfod panel yn gwbl gyfrinachol ac yn cael ei thrin felly yn ystod y cyfarfod ac wrth drin unrhyw ddata a ystyriwyd ynddo wedi hynny*
 - *Nid oedd y wybodaeth i'w datgelu i drydydd parti heb gytundeb ymlaen llaw y partneriaid i'r cyfarfod*
 - *Dylai'r wybodaeth a rennir fod yn berthnasol i'r adolygiad*
 - *Dylid gwneud gwahaniaethau clir rhwng ffaith a barn*

³ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/575273/DHR-Statutory-Guidance-161206.pdf

⁴ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/715778/May-2018_Government-Security-Classifications-2.pdf

- *Roedd pob asiantaeth i sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cadw mewn modd cyfrinachol a chyfyngedig priodol. Nod y cofnodion fyddai adlewyrchu y dylai pob unigolyn a drafodir yn ystod y cyfarfodydd gael ei drin yn deg, gyda pharch a heb wahaniaethu amhriodol. Byddai'r holl waith a wneir yn cael ei lywio gan ymrwymiad i gyfle cyfartal a materion ymarfer effeithiol mewn perthynas ag oedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth rhywedd, hil, crefydd a rhywioldeb.*

4. CWMPAS A CHYLCH GORCHWYL YR ADOLYGIAD

4.1 Ar ôl ystyried yn ofalus, cytunwyd i adolygu cysylltiad pob asiantaeth â Betty a John rhwng 1 Tachwedd 2017 a dyddiad marwolaeth Betty ym mis Mai 2019, yn amodol ar unrhyw wybodaeth newydd ysgogi adolygiad o unrhyw ddigwyddiadau cynharach neu ddigwyddiadau oedd yn berthnasol.

Sylw: *Tachwedd 2017 oedd y tro cyntaf i Betty a John ddweud wrth weithiwr proffesiynol (eu cyfreithiwr) eu bod nhw'n cael anawsterau yn eu perthynas. Fodd bynnag, at ddibenion cyd-destun, mae sylwadau hefyd wedi cael eu gwneud yn yr adroddiad hwn am ddigwyddiadau (a ddisgrifiwyd gan ffrindiau Betty a John) a ddigwyddodd sawl blwyddyn ynghynt.*

4.2 Pennwyd y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr adolygiad i benderfynu'r canlynol:

- *A oedd y digwyddiad pan fu farw Betty yn ddigwyddiad unigryw ac a oedd unrhyw arwyddion rhybudd a allai fod wedi cael eu nodi gan asiantaethau*
- *A ellid gwneud mwy yn lleol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i ddiodefwrwr cam-drin domestig, yn enwedig i bobl hŷn*
- *A oedd Betty neu John neu eu teulu/ffrindiau/cydweithwyr wedi wynebu unrhyw rwystrau o ran adrodd am unrhyw gam-drin, gan gynnwys a oeddent yn gwybod sut i adrodd am gam-drin domestig pe byddent wedi dymuno gwneud hynny*
- *A oedd cyfleoedd wedi cael eu colli i weithwyr proffesiynol 'wneud ymholiad arferol' ynghylch unrhyw gam-drin domestig a brofwyd gan Betty a John*
- *A oedd cyfleoedd wedi cael eu colli i asiantaethau ymyrryd mewn perthynas â cham-drin domestig rhwng Betty a John*
- *A oedd cam-drin alcohol yn ffactor yn y berthynas rhwng Betty a John, a oedd asiantaethau yn gwybod amdano, ac os felly, beth allai fod wedi cael ei wneud i ymyrryd*
- *A oedd unrhyw un yn ystyried bod Betty mewn perygl o niwed, ac a gafodd y pryderon hynny eu rhannu a'u gweithredu arnynt*

5. METHODOLEG

5.1 Ar ôl cael gwybod am laddiad domestig posibl, cafodd ymarfer cwmpasu aml-asiantaeth ei gynnal i ganfod a oedd gan asiantaethau unrhyw gofnod o gael cysylltiad â Betty a/neu John mewn unrhyw gyd-destun oedd yn berthnasol i'r adolygiad. Dim ond y ddwy asiantaeth ganlynol oedd wedi cael cysylltiad â nhw:

- *Heddlu Dyfed-Powys*
- *Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Gwasanaethau Gofal Sylfaenol).*

Yr asiantaethau a roddodd ymatebion negyddol oedd:

- *Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion*
- *Ymyrraeth Wedi'i Thargedu Porth Ceredigion*
- *Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru*
- *Gwasanaeth Prawf Cymru*
- *Cwmni Adsefydlu Cymunedol KSS*
- *Gwasanaethau Alcohol – DDAS*
- *Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru*

5.2 Gofynnwyd i'r heddlu a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol gynhyrchu Adolygiadau Rheoli Unigol. Gofynnwyd iddynt hefyd gynnwys cronoleg gynhwysfawr o'u cysylltiad yn ystod y cyfnod perthnasol, manylion am unrhyw benderfyniadau a gafodd eu gwneud, pa wasanaethau gafodd eu cynnig ac a roddwyd i Betty ac i John ac unrhyw gamau eraill a allai fod wedi cael eu cymryd. Ymhellach, roedd yr Adolygiadau Rheoli Unigol i'w cwblhau gyda 'Chylch Gorchwyl' yr adolygiad mewn golwg, a gofynnwyd iddynt ystyried nid yn unig a oedd gweithdrefnau wedi cael eu dilyn ond a oeddent, o edrych yn ôl, wedi bod yn ddigonol.

Sylw: *Nod ARHU yw edrych mewn modd agored a beirniadol ar brosesau ac arferion unigolion a sefydliadau a darparu dadansoddiad o'r gwasanaeth a ddarparwyd ganddynt. Roedd Awduron yr Adolygiadau Rheoli Unigol yn annibynnol yn yr ystyr eu bod heb gael unrhyw gysylltiad blaenorol â Betty neu John nac unrhyw gyfrifoldeb rheolwr llinell ar gyfer staff a fu'n ymwneud â nhw.*

5.3 Roedd yr Adolygiadau Rheoli Unigol a gynhyrchwyd yn ystod yr adolygiad hwn o safon dda. Cawsant eu rhannu ymhlith aelodau'r panel ar ôl i'w hansawdd gael eu sicrhau gan yr asiantaeth berthnasol a chan Gadeirydd y panel. Lle cafodd heriau eu gwneud ymatebwyd iddynt yn brydlon ac mewn ysbryd o weithredu'n agored ac yn gydweithredol.

5.4 Mae'r adroddiad trosolwg hwn wedi cael ei lunio o ddadansoddiad o gronoleg gyfunol aml-asiantaeth, gwybodaeth a ddarparwyd yn yr Adolygiadau Rheoli Unigol, o ddeunyddiau ffynhonnell agored, ac o drafodaethau rhwng Cadeirydd yr ALID a John, dau o ffrindiau da John (a Betty), cyfreithiwr oedd wedi gweithredu ar eu rhan pan wnaethant eu Hewyllys a Thestament olaf, a sawl un o gymdogion y

pâr. Mae datganiadau tyst a baratowyd gan swyddogion yr heddlu a fynychodd ddigwyddiadau hefyd wedi cael eu hadolygu, yn ogystal â datganiadau tystion gan bobl eraill a gyflwynodd dystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad troseddol i farwolaeth Betty. Mae gwybodaeth helaeth y Cadeirydd o adolygiadau lladdiad domestig blaenorol ac agweddau ar gam-drin domestig wedi cael ei defnyddio, yn ogystal â chyhoeddiadau perthnasol am gam-drin domestig, yn benodol y rhai sy'n effeithio ar bobl hŷn yng Nghymru.

- 5.5 Roedd y panel adolygu wedi ystyried prosesau'r crwner a'r prosesau troseddol cyn cysylltu â theulu Betty, ei ffrindiau, ei chymdogion a John i sicrhau y gellid rhannu gwybodaeth berthnasol heb gyfaddawdu'r naill broses na'r llall.

6. CADEIRYDD YR ADOLYGIAD AC AWDUR YR ADRODDIAD TROSOLWG

- 6.1 Penododd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion Paul Johnston i ymgymryd â'r rolau Cadeirydd Annibynnol ac Awdur yr adroddiad trosolwg ar gyfer yr adolygiad. Mae'n ymarferydd annibynnol sydd wedi cadeirio ac ysgrifennu nifer o adolygiadau lladdiad domestig, adolygiadau achosion difrifol plant, adolygiadau diogelu oedolion ac adolygiadau achosion difrifol trefniadau amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaeth. Mae ganddo brofiad helaeth ym maes diogelu a gwaith aml-asiantaeth a gwybodaeth ddatblygedig am faterion trais a cham-drin domestig gan gynnwys trais ar sail 'anrhydedd', ymchwil, canllawiau a deddfwriaeth yn ymwneud ag oedolion a phlant. Mae hefyd yn gyn-gadeirydd Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA). Mae wedi cwblhau'r holl hyfforddiant adolygu lladdiad domestig a noddir gan y Swyddfa Gartref, ac ynghyd â chydweithiwr, mae hefyd yn darparu hyfforddiant adolygu lladdiad domestig annibynnol. Roedd wedi ymddeol o wasanaeth yr heddlu yn Lloegr yn 2005 fel pennaeth lladdiadau ac ymchwiliadau i droseddau mawr, ac ers hynny mae wedi bod yn ymwneud â chefnogi teuluoedd dioddefwyr lladdiad yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n Ddarlithydd Cyswllt Prifysgol mewn plismona ac yn Asesydd Pwynt Terfyn ar gyfer rhaglen Prentisiaeth Gradd Cwnstabiliaid yr Heddlu. Barnwyd bod ganddo'r annibyniaeth, y profiad, a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y dasg.

6.2 AELODAU'R PANEL ADOLYGU

- 6.3 Yn ystod yr adolygiad mae'r cynrychiolwyr canlynol wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd a thrafodaethau, ac mae pob un ohonynt yn annibynnol gan nad oeddent wedi bod yn gysylltiedig â Betty na John o'r blaen.

Enw	Sefydliad
Review and Investigation Ltd	
Paul Johnston	Cadeirydd ac Awdur yr Adroddiad
Cyngor Sir Ceredigion	
Sue Darnbrook	Cyfarwyddwr Statudol
Diana Davies	Rheolwr Corfforaethol Partneriaethau a Pherfformiad
Naomi McDonagh	Rheolwr Partneriaethau

Donna Pritchard	Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Ceredigion
Judi O'Rourke	Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Oedolion
John Forbes Jones	Rheolwr Corfforaethol Llesiant Meddyliol
Heddlu Dyfed-Powys	
Ditectif Prif Arolygydd Anthony Evans	Ditectif Prif Arolygydd (Uwch Swyddog Ymchwilio)
Uwcharolygydd Dros Dro Steve Davies	Uwcharolygydd Dros Dro
Ditectif Arolygydd Gary Williams	Ditectif Arolygydd
Ditectif Prif Arolygydd Gareth Roberts	Ditectif Prif Arolygydd
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	
Hannah Williams	Uwch Reolwr Cymorth Gweithredol Dros Dro
Christine Harley	Pennaeth Uned Gyflawni Leol Dyfed Powys
Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru	
Michelle Pooley	Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	
Mandy Nichols-Davies	Pennaeth Diogelu
Dr Sion James	Meddyg Teulu, Meddygfa Tregaron a Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol, Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed	
Sian Roberts	Rheolwr Gwasanaeth
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	
William Bowen	Rheolwr Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref
VAWDASV (rôl gynghori)	
Natalie Hancock	Cynghorydd Rhanbarthol VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru

7. PROSES AU SY'N CYD-REDEG

- 7.1 Bu ymchwiliad yr heddlu i amgylchiadau marwolaeth Betty a arweiniodd yn y pen draw at John yn cael ei gyhuddo o lofruddiaeth Betty. Yn ddiweddarach plediodd John yn euog i ddynladdiad Betty, a dderbyniwyd hyn gan y llys.
- 7.2 Cafodd marwolaeth Betty ei chyfeirio at y crwner a agorodd cwest ac yna ei ohirio oherwydd bod John wedi cael ei gyhuddo o lofruddiaeth. Mae'r cwest wedi cael ei 'ohirio am gyfnod amhenodol' ar sail dedfrydu John yn euog o ddynladdiad Betty.

8. CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNWYSOLDEB

- 8.1 Fel y soniwyd eisoes, roedd Betty yn ei 70au hwyr pan fu farw; ei hethnigrwydd oedd gwyn Prydeinig. Roedd John yn ei 80au cynnar ac mae e hefyd yn wyn Prydeinig. Saesneg oedd eu hiaith gyfathrebu.

8.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010⁵ yn nodi naw nodwedd warchoddedig. Mae gwahaniaethu sy'n digwydd ar sail un neu ragor o'r nodweddion hyn yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf. Y nodweddion yw:

- *Oed*
- *Anabledd*
- *Ailbennu rhywedd*
- *Priodas a phartneriaeth sifil*
- *Beichiogrwydd a mamolaeth*
- *Hil*
- *Crefydd neu gred*
- *Rhyw*
- *Cyfeiriadedd rhywiol.*

8.3 Mae'r Ddeddf yn cynnig diogelwch rhag gwahaniaethu i bob unigolyn. Mae'n bwysig nodi bod y Ddeddf yn gwahardd unrhyw statws gwarchoddedig ar gyfer cam-drin domestig a thrais.

8.4 Gall cam-drin domestig effeithio ar unrhyw un, waeth beth fo'i ryw, oedran neu hil, ond mae menywod yn fwy tebygol o brofi erledigaeth a ailadroddir, cael eu hanafu'n gorfforol neu gael eu lladd o ganlyniad i gam-drin domestig a phrofi cam-drin nad yw'n gorfforol (gan gynnwys cam-drin emosiynol ac ariannol), na dynion⁶. Fodd bynnag, ni ddaeth unrhyw dystiolaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad i awgrymu bod Betty neu John wedi'u gwahaniaethu yn eu herbyn yn fwriadol neu wedi cael eu trin yn llai ffafriol gan unrhyw asiantaeth mewn perthynas ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan y Ddeddf, neu fod unrhyw nodweddion gwarchoddedig wedi cael effaith andwyol ar gyswllt ac ymateb i unrhyw ddigwyddiadau cam-drin domestig yr adroddwyd amdanynt.

Sylw: Mae ymchwil gan y prosiect Dewis Choice (gweler 12.16 yn ddiweddarach) yn honni y gall gweithwyr proffesiynol fod â rhagdybiaeth sylfaenol nad yw cam-drin domestig yn digwydd i bobl hŷn, ac felly nid ydynt yn gofyn amdano, ond mae meddygfa'r Meddyg Teulu yn sicr nad oedd ei methiant i nodi cam-drin domestig posibl rhwng Betty a John yn ddim i'w wneud â'u hoedran.

8.5 Er y dylid osgoi stereoteipio pobl hŷn, mae profiad yn dangos y gall rhai fod yn llai tebygol o nodi eu bod yn profi cam-drin domestig. Efallai eu bod yn teimlo'n llai abl i ddefnyddio gwasanaethau: gallant fod yn llai ymwybodol na phobl iau o'r gwasanaethau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt: neu efallai eu bod yn credu mai dim ond ar gyfer pobl iau, neu bobl â phlant ifanc, y mae gwasanaethau⁷. Wrth i'r adroddiad hwn fynd yn ei flaen, fe welir bod John wedi ceisio rhywfaint o gymorth ar gyfer Betty, ond nid yng nghyd-destun cam-drin domestig.

⁵ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/4>

⁶ <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusefindingsfromthecrimesurveysurveyforenglandandwales/yearendingmarch2018>

⁷ Wyddall, S., Zerk, R. Newman, J. 2015. Crimes against, and abuse of, older people in Wales: Access to support and justice working together. Adroddiad wedi'i gyflwyno i Gomisynydd Pobl Hŷn Cymru. Ar gael yn: <https://dewischoice.org.uk/>

Sylw: Mae paragraffau 11.3 i 11.22 o'r adroddiad hwn yn manylu ar yr hyn a ddywedodd John wrth Gadeirydd yr adolygiad yn ystod cyfweiliad yn y carchar ac yn ddiweddarach dros y ffôn (cafodd ei ryddhau o'r carchar ym mis Mai 2021) ynghylch ei wybodaeth am wasanaethau a sut i'w defnyddio.

- 8.6 Fel y soniwyd yn flaenorol, ni chynhaliwyd unrhyw asesiadau ffurfiol o Betty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r dystiolaeth feddygol yw nad oedd erioed angen clinigol i wneud hynny. Nid oedd gan feddygfa'r Meddyg Teulu unrhyw bryderon ynghylch gwybyddiaeth nac ymddygiad Betty heblaw am un digwyddiad a ysgogodd y feddygfa i ysgrifennu ati am ei hymddygiad amhriodol tuag at aelod o staff.

Sylw: Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005⁸ yn disgrifio rhywun nad yw'r galluedd ganddo fel unigolyn nad yw'n gallu gwneud penderfyniad penodol neu gymryd camau penodol ei hun ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad neu gymryd y camau hynny. Mae egwyddorion o dan y Ddeddf yn datgan bod gan bob oedolyn y galluedd i wneud penderfyniadau ei hun, y gall rhywun na all wneud penderfyniad cymhleth wneud penderfyniad symlach o bosibl, ac na ellir ystyried nad oes gan rywun alluedd dim ond oherwydd ei fod yn gwneud penderfyniad 'annoeth'.

Prif ddiiben Deddf Iechyd Meddwl 2007⁹ yw sicrhau y gall pobl ag anhwylderau meddwl difrifol sy'n bygwth eu hiechyd a'u diogelwch, neu ddiogelwch y cyhoedd, gael eu trin ni waeth beth fo'u caniatâd lle bo angen i'w hatal rhag niweidio eu hunain neu eraill.

- 8.7 Ni ddaeth unrhyw wybodaeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad i nodi a oedd Betty neu John yn dilyn unrhyw ffydd neu grefydd, ac nid oedd unrhyw arwydd bod gan y naill na'r llall unrhyw gyfeiriadedd rhywiol heblaw heterorywiol, na bod gan y naill na'r llall hunaniaeth rywiol nad oedd wedi'i briodoli adeg ei enedigaeth. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod eu rhyw yn eu hatal rhag gofyn am neu dderbyn gwasanaethau.
- 8.8 Er bod rhai cyfeiriadau yn yr adroddiad hwn at y defnydd o alcohol gan Betty, ynghyd â chasgliadau y gallai hyn fod wedi amharu ar ei barn ar adegau, mae'r defnydd o alcohol wedi'i eithrio'n statudol o'r diffiniad o anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

9. LLYWODRAETHU STRATEGOL

- 9.1 LLYWODRAETHU STRATEGOL AR GYFER TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL YNG NGHYMRU

- 9.2 Yn 2015 pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (VAWDASV)¹⁰. Mae'r Ddeddf yn ceisio ymateb gwell ar y cyd gan y sector cyhoeddus, arweinyddiaeth gryfach a ffocws mwy cyson ar y ffordd yr eir i'r afael â materion o'r fath yng Nghymru, ac yn bwysicach fyth mae'n ceisio atal cam-drin rhag digwydd yn y lle cyntaf.

⁸ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents>


⁹ <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/12/contents>

¹⁰ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/contents/enacted>

9.3 Yn unol â gofynion y Ddeddf, cyhoeddodd Canolbarth a Gorllewin Cymru ei strategaeth VAWDASV ranbarthol gyntaf ym mis Tachwedd 2018. Mae 'Bywydau Diogelach, Perthnasoedd Iachach'¹¹ yn amlinellu sut y bydd y rhanbarth yn gwella'r ymateb a'r gefnogaeth i unrhyw un sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod, dwyn cyflawnwyr i gyfrif, sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr offer a'r wybodaeth i weithredu, cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion a sut i gael mynediad at gymorth a helpu plant a phobl ifanc i ddeall anghydraddoldeb mewn perthnasoedd a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir.

9.4 Mae'r strategaeth ranbarthol yn cyfrannu at strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Gweithrediaeth Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mabwysiadu amcanion cyffredinol y strategaeth genedlaethol fel sbardunau ar gyfer y blaenoriaethau strategol. Mae'r strategaeth yn ceisio darparu'r arweinyddiaeth a'r cyfeiriad a fydd yn hyrwyddo cysondeb ac arferion gorau ar gyfer y ffordd y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei flaenoriaethu a'i drin ar draws y rhanbarth. Y weledigaeth gyfunol yn y strategaeth yw bod goroeswyr, eu plant, y teulu ehangach a chymunedau yn gwybod sut a ble i gael y cymorth y mae ei angen arnynt, darparu'r cymorth hwnnw mewn modd cyson a chydgyssylltiedig, a gweithio tuag at gymdeithas lle na oddefir unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

9.5 Mae'r strwythur llywodraethu ar gyfer y Strategaeth VAWDASV Ranbarthol wedi'i nodi isod:



¹¹ <https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1213738/safer-lives-healthier-families-final-draft-mww-vawdasv-strategy-march-2018.pdf>

9.6 DIODDEFWYR GWRYW CAM-DRIN DOMESTIG

Wrth i'r adroddiad hwn fynd yn ei flaen, bydd sylwadau'n cael eu gwneud am y ffactorau a all effeithio ar ddynion hŷn o ran adnabod cam-drin domestig a'r rhwystrau y gallent eu hwynebu o ran ei ddatgelu, ac nid oes fawr o amheuaeth bod John wedi cael ei effeithio ganddynt i ryw raddau. Mae dwsinau o astudiaethau ac arolygon dros y degawdau diwethaf wedi dangos bod dynion o bob oed ac ethnigrwydd yn llai tebygol na menywod o ofyn am gymorth ar gyfer pob math o broblemau, gan gynnwys materion iechyd corfforol, iselder, cam-drin sylweddau a materion perthnasoedd, er eu bod yn dod ar draws y problemau hyn ar yr un cyfraddau neu gyfraddau mwy na menywod. Mae penderfynu i ba raddau y mae dynion yn ddiodefwr cam-drin domestig yn anodd oherwydd gallant fod yn fwy amharod i adrodd amdano, ond fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae llawer mwy o ddigwyddiadau trais domestig a adroddir i'r heddlu yn cael eu cyflawni gan ddynion yn hytrach na menywod.

9.8 Dadleuwyd bod dynion yn dysgu o blentyndod nad ydynt i fod i fynegi teimladau o fod yn agored i niwed ac y dylent atal ymatebion emosiynol i'r fath raddau fel eu bod yn wirioneddol anymwybodol o'u hemosiynau a sut i'w mynegi erbyn iddynt fod yn oedolion¹². Mae gan ddynion â lefelau uwch o ideoleg gwrywdod traddodiadol farn negyddol ynghylch ceisio cymorth oherwydd eu bod yn gwadu eu bod yn agored i niwed, a gall canlyniad hyn fod anallu i gael perthynas wirioneddol agos; mae dynion yn aml yn cyfuno rhyw ag agosatrwydd¹³.

9.9 Ond mae'r astudiaethau yn dangos bod dynion yn tueddu i drafod materion sy'n ymwneud â'u hiechyd corfforol neu feddyliol gyda'u partner agos cyn cymryd y camau olaf i geisio cymorth proffesiynol, ond o ran cam-drin domestig, am resymau amlwg, mae dyn yn annhebygol iawn o ofyn i'r sawl sy'n ei gam-drin a yw ef/hi yn meddwl ei bod hi'n syniad da ei fod yn ceisio cymorth i ymdopi â'r gamdriniaeth.

9.10 Ac eto hyd yn oed pan fydd dynion yn ceisio cymorth yn y diwedd, mae tystiolaeth y gall ffurfiau llai eithafol o ofid dynion fynd heb eu cydnabod fel arfer¹⁴ oherwydd bod dynion i bob pwrpas yn cefnu ar fyfyrrio seicolegol.

9.11 Mae holl ddiodefwr cam-drin domestig yn aml yn wynebu rhwystrau i adrodd am yr hyn sy'n digwydd iddynt. I ddynion, gall fod rhwystrau ychwanegol fel:

- *Efallai fod pobl yn dweud wrthynt mae'n rhaid eu bod nhw wedi gwneud rhywbeth i ysgogi cam-drin gan y troseddwr*
- *Gallant ddiodefwr cywilydd, embaras a'r stigma cymdeithasol o beidio â gallu amddiffyn eu hunain 'fel y byddai dyn go iawn yn ei wneud'*

¹² <https://repository.canterbury.ac.uk/item/87122/masculinity-alexithymia-and-fear-of-intimacy-as-predictors-of-uk-men-s-attitudes-toward-seeking-professional-psychological-help>

¹³ Psychology of Men and Masculinity (Cyf. 6, Rhif 1, tudalennau 73-78)

¹⁴ <https://journals.plos.org/plosone/article?id=10.1371/journal.pone.0049779>

- *Gallant deimlo'n ansicr ynghylch ble i geisio cymorth, neu sut i geisio cymorth*
- *Mae gwasanaethau yn llai tebygol o ofyn a yw dyn yn ddiodefwr trais teuluol, a phan fyddant yn gofyn, maent yn llai tebygol o'i gredu*
- *Gall diodefwr gwryw gael eu harestio a'u symud o'u cartrefi oherwydd y dybiaeth, gan eu bod yn wryw, mai nhw yw'r cyflawnwr ac nid y diodefwr. Pan fydd hyn yn digwydd, gall plant gael eu gadael heb eu hamddiffyn rhag y sawl sy'n cyflawni'r trais, gan arwain llawer o ddynion at ddiodefwr y cam-drin yn dawel er mwyn amddiffyn eu plant.*

9.12 DYLETSWYDD GYFREITHIOL

9.13 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹⁵ yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdod lleol i wneud neu beri i ymholiadau gael eu gwneud os credir bod 'oedolyn' (gan gynnwys person hŷn) yn diodefwr, neu mewn perygl o ddiodefwr, camdriniaeth neu esgeulustod. Bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu pa gamau y dylai'r awdurdod neu eraill eu cymryd.

9.14 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu llinell gymorth 24 awr, genedlaethol, saith diwrnod yr wythnos, gyfrinachol ar gyfer y rhai sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a thrais ar sail rhywedd. Enw'r llinell gymorth yw 'Byw Heb Ofn'¹⁶ ac mae'n wasanaeth gwybodaeth a chymorth rhywedd-ymatebol i fenywod, dynion, plant a gweithwyr proffesiynol sydd am wybod mwy am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i ddiodefwr yng Nghymru.

Sylw: *Mae'r llinell gymorth Byw Heb Ofn ar gael i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol sy'n amau bod cam-drin yn digwydd hyd yn oed pan nad yw'r diodefwr wedi datgelu hynny. Bwriad y llinell gymorth yw rhoi'r wybodaeth fwyaf priodol i weithiwr proffesiynol er mwyn helpu i gefnogi'r unigolyn a effeithir gan y gamdriniaeth, gan gynnwys manylion cyswllt y gwasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol perthnasol yn yr ardal.*

9.15 Mae taflen Llywodraeth Cymru 'Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru'¹⁷ yn disgrifio sut mae llwybr i gefnogi pobl hŷn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn ceisio cysoni dyletswyddau statudol presennol neu arfaethedig a allai ymwneud â phobl hŷn gydag arferion da mewn perthynas â cham-drin domestig. Mae'r ddogfen yn cynnwys siart lif sy'n cyfeirio at y 'Dyletswydd i adrodd' a'r 'Dyletswydd i ymholi' o dan Ddeddf 2014, a elwir ar y cyd yn 'Gofyn a Gweithredu'.

Sylw: *Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar y rhyngwrdd ac o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac mae ar gael ar ei dudalen fewnrwyd Diogelu ac i bob grŵp proffesiynol o fewn gwasanaethau aciwt, cymunedol, gofal sylfaenol ac iechyd meddwl, a chyfeirir ati*

¹⁵ www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

¹⁶ <https://gov.wales/live-fear-free>

¹⁷ <https://gov.wales/domestic-abuse-safeguarding-older-people>

mewn hyfforddiant diogelu oedolion. Ym mis Mai 2019 ac eto ym mis Awst 2020, fe'i hailgyhoeddwyd i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig sy'n ymwneud â phobl hŷn.

9.16 **'GOFYN A GWEITHREDU'**

9.17 Mae'r ddogfen yn disgrifio 'Gofyn a Gweithredu' fel proses o ymholiad wedi'i dargedu i'w ymarfer ar draws y gwasanaeth cyhoeddus i ganfod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r term 'ymholiad wedi'i dargedu' yn disgrifio'r gydnabyddiaeth o ddangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel ysgogiad i weithiwr proffesiynol gymhwyso 'trothwy isel' a gofyn i'w gleient a yw unrhyw un o'r materion hyn wedi effeithio arno/arni. Y nodau yw cynyddu adnabod y rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i'r rhai a nodwyd sy'n darparu cymorth arbenigol yn seiliedig ar risg ac angen y cleient; dechrau creu diwylliant ar draws y gwasanaeth cyhoeddus lle mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes a dderbynnir a lle mae datgelu yn cael ei ddisgwyl, ei gefnogi, ei dderbyn a'i hwyluso; gwella'r ymateb i'r rhai sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sydd ag anghenion cymhleth eraill megis camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl; ac ymgysylltu'n rhagweithiol â'r rhai sy'n agored i niwed ac yn gudd, cyn gynted â phosibl, yn hytrach na dim ond ymgysylltu'n adweithiol â'r rhai sydd mewn argyfwng neu mewn perygl uniongyrchol o niwed difrifol.

9.18 **DEFNYDDIO 'GOFYN A GWEITHREDU' GYDA PHOBL HŷN**

9.19 Mae'r ddogfen yn mynd ymlaen i ddweud ar ôl ei chyflwyno'n genedlaethol dylid defnyddio 'Gofyn a Gweithredu' gyda phobl hŷn sy'n dangos arwyddion posibl o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r dangosyddion yn cynnwys symptomau meddygol (megis iselder, gorbryder neu boen lle nad oes esboniad meddygol), arwyddion sy'n gysylltiedig ag ymarweddiad ac ymddygiad y cleient, gan gynnwys newid agwedd neu ddarn o wybodaeth neu batrwm ymddygiad sy'n haeddu ymholiad (a elwir yn 'giwiau').

9.20 **CAM-DRIN DOMESTIG**

9.21 Diffinnir cam-drin domestig fel:¹⁸

'Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau sy'n amlygu ymddygiad sy'n fgygythiol neu'n rheoli, neu'n rheoli drwy orfodaeth, neu unrhyw drais neu gamdriniaeth rhwng pobl 16 oed neu'n hŷn sydd, neu sydd wedi bod, yn bartneriaid rhywiol, neu'n aelodau o deulu, ni waeth beth fo'u rhyw na'u rhywioldeb. Gall y cam-drin gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:

¹⁸ Home Office Circular 003/2013: new government domestic violence and abuse definition

- *Seicolegol*
- *Corfforol*
- *Rhywiol*
- *Ariannol*
- *Emosiynol'*

9.22

Gall cam-drin domestig ddigwydd i unrhyw un, waeth beth fo'i oedran, rhyw, hil, rhywioldeb, sefyllfa economaidd a daearyddiaeth. Fodd bynnag, mae rhai ffactorau risg allweddol yn gysylltiedig â mwy o risg, er enghraifft, mae menywod yn fwy tebygol o fod yn ddiodefwr cam-drin domestig, gall cyfeiriadedd rhywiol wneud i bobl beidio ag adrodd oherwydd yr ofn o orfod 'dod allan', efallai na fydd unigolion ag anableddau yn teimlo eu bod yn gallu adrodd am bryderon oherwydd y ddibyniaeth bosibl ar y cyflawnwr i ateb anghenion o ddydd i ddydd, ac mae'r rhai â phlant o dan bump oed yn dangos mwy o amharodrwydd i adrodd am bryderon rhag ofn y bydd hynny'n chwalu'r uned deuluol, colli'r cartref teuluol neu'n effeithio ar gyfleoedd neu ragolygon cyflogaeth. Er y cydnabyddir y gall cam-drin domestig effeithio ar unrhyw un mewn cymdeithas, efallai na fydd profiad rhai grwpiau bob amser yn weladwy, felly mae angen codi ymwybyddiaeth a deall profiad y grwpiau hynny bob amser. Gall y cam-drin a brofir gan bobl hŷn, fel yn achos pobl eraill, amrywio o gam-drin emosiynol i gam-drin corfforol, rhywiol, ariannol, seicolegol ac esgeulustod, gyda llawer o ddiodefwr yn profi cyfuniad o ymddygiadau camdriniol.

Sylw: *Yn ôl Safelives¹⁹, ar gyfartaledd, bydd diodefwr hŷn yn profi cam-drin domestig ddwywaith mor hir cyn ceisio cymorth na'r rhai o dan 61 oed, ac eto maent wedi'u tangynrychioli'n ddifrifol ymhlith gwasanaethau cam-drin domestig, ac nid yw 80% o oedolion hŷn yn weladwy i wasanaethau o gwbl. Mae astudiaethau blaenorol sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig yn aml wedi esgeuluso cynnwys profiadau pobl hŷn²⁰.*

9.23

Mae tystiolaeth hefyd o achosion troseddol, lladdiad domestig ac adolygiadau o achosion difrifol hanesyddol nad yw materion cam-drin domestig i bobl hŷn yn aml yn cael eu cydnabod, sy'n golygu nad yw mesurau amddiffynnol neu gefnogol a allai fod wedi lleihau'r risg o niwed yn cael eu rhoi yn eu lle. Mae Safelives²¹ yn nodi y gall pobl hŷn hefyd gael eu heffeithio'n arbennig gan yr hyn y gellir ei ystyried yn ddigwyddiadau unigol 'lefel isel' a all, fel rhan o batrwm hirsefydlog o ymddygiad camdriniol cronus, fod â chanlyniadau a all fod yr un mor wael neu'n waeth na digwyddiad unigol.

Sylw: *Mae ymchwil amrywiol²² yn dangos mai prin yw'r adolygiadau lladdiad domestig ar gyfer pobl hŷn sy'n nodi hanes o gam-drin domestig. Gall hyn fod oherwydd nad yw pobl hŷn yn cydnabod y ffenomen o gam-drin domestig neu oherwydd bod cenhedlaeth hŷn yn goddef yr hyn y gellir ei ystyried yn awr fel gorfodaeth a rheolaeth neu drais o fewn priodas, gan fod cymdeithas wedi ystyried y rhain yn faterion preifat yn hanesyddol.*

¹⁹ Safelives (2016) Safe Later Lives: Older people and domestic abuse.

²⁰ Zerk, R. (2015) 'Barriers to disclosure in later life', papur a gyflwynwyd yng Nghyngres Ryngwladol XXXVIII ar y Gyfraith ac Iechyd Meddwl, Fienna, 15 Gorffennaf 2015.

²¹ <https://safelives.org.uk/policy-evidence>

²² Benbow, S. M., Bhattacharyya, S., & Kingston, P. (2018). *Older adults and violence: An analysis of domestic homicide reviews in England involving adults over 60 years of age*. Ageing & Society. doi:10.1017/S0144686X17001386

Mae dadansoddiadau eraill²³ wedi dangos bod pobl hŷn yn annhebygol o godi pryderon am gam-drin domestig neu ragfarn oed ac mae dealltwriaeth gyfyng o gam-drin domestig yn golygu bod pobl hŷn yn aml yn cael eu hanghofio.

9.24 YMDDYGIAD SY'N GORFODI AC YN RHEOLI

9.25 Lle mae cysylltiad personol rhwng dau barti, mae ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn drosedd²⁴. Gall hyn fod ar sawl ffurf ond yn aml mae'n cynnwys patrwm o gam-drin parhaus ac ailadroddus. Gall y gamdriniaeth hon ymddangos yn arferol neu'n 'lefel isel' i'r sawl sy'n edrych o'r tu allan, ond bydd ei harwyddocâd cudd i'r dioddefwr yn aml yn achosi pryder ac ofn. Gall hefyd greu amgylchedd lle mae ymddygiad cynyddol niweidiol yn cael ei dderbyn yn rhywbeth normal gan y dioddefwr. Gall camdrinwyr fod yn greadigol o ran yn y ffyrdd y maent yn rheoli, yn cam-drin neu'n bychanu eu partneriaid a hefyd o ran y canlyniadau sy'n deillio o anufuddhau. Dylai ymarferwyr sy'n delio â digwyddiadau cam-drin domestig fod yn effro i batrymau ymddygiad a allai fod yn rheoli neu'n gorfodi. Mae rheolaeth orfodol fel arfer yn cael ei phersonoli, yn yr ystyr ei fod yn golygu rhywbeth i'r dioddefwr hyd yn oed pan nad yw'r ystyr yn amlwg i unrhyw un arall. Gall nodweddion unigol megis anabledd, aelodaeth o gymuned gaeedig neu ymylol, neu beidio â siarad Saesneg gynyddu'r risg o ynysu i ddioddefwr a'i gwneud yn haws i gyflawnwr sefydlu ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi.

9.26 Mae enghreifftiau o ymddygiad sy'n rheoli neu'n gorfodi yn cynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- *Beirniadaeth gyson*
- *Bychanu*
- *Ymddygiad cenfigennus neu feddiannol, e.e. galwadau ffôn mynych i gadarnhau ble mae'r dioddefwr a beth mae'n ei wneud, neu edrych ar weithgarwch y dioddefwr o ran ei ffôn neu ei gyfrif e-bost*
- *Bygwth hunanladdiad/lladdiad/neu ladd aelodau o'r teulu*
- *Bygythiadau neu hunan-niwed gwirioneddol*
- *Bygwth niweidio anifeiliaid anwes*
- *Rheoli arian y teulu, atal neu gyfyngu ar allu'r dioddefwr i gael gafael ar arian*
- *Ynysu'r dioddefwr drwy beidio â chaniatáu iddo ymweld â ffrindiau a theulu neu i'r teulu neu ffrindiau ymweld ag ef*
- *Cyfyngu ar symudiadau dioddefwr, e.e. eu cadw mewn ystafell, a gorfod rhoi cyfrif am eu hamser*
- *Dweud wrth ddioddefwyr beth i'w wisgo neu sut i wneud eu gwallt*
- *Dweud wrth ddioddefwyr beth yw'r drefn neu'r amserlen, e.e. amseru teithiau siopa*
- *Atal cyfathrebu, e.e. llythyrau, negeseuon neu alwadau ffôn.*

²³ Bows H. (2018) *Domestic Homicide of Older People (2010-15): A Comparative Analysis of Intimate-Partner Homicide and Parricide Cases in the UK*, British Journal of Social Work (2018) 0, 1-20, Oxford Press

²⁴ Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015.

9.27 Mae dogfen Llywodraeth Cymru '*Diogelu pobl hŷn yng Nghymru*' y soniwyd amdani ym mharagraff 9.15 yn nodi, '*Mae cydnabod ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli fel rhan o gamdriniaeth ddomestig pobl hŷn yn bwysig iawn. Os nad ystyrir ymddygiad sy'n gorfodi gallai arwain at fethu cyfle i adnabod achosion o gam-drin a thrais. Fodd bynnag, er y gall rhai cyflawnwyr orfodi a gweithredu'n fwriadol, gall eraill fod yn ymateb i amgylchiadau lle na allant ymdopi â lefel y gofal sydd ei hangen ar y dioddefwr. Hefyd, gall fod rheswm clinigol dros y cam-drin; er enghraifft, dementia. Ceir llai o ddefnydd o dechnegau rheoli a gorfodi efallai os yw'r ymddygiad treisgar o ganlyniad i esgeulustod anfwriadol neu'r straen sefyllfaol emosiynol a brofir gan y gofalwr*'.

9.28 Mae'r un ddogfen yn nodi pan fydd person hŷn yn ofalwr y camdriniwr gall deimlo rhwymedigaeth i barhau â'r gofal er gwaetha'r gamdriniaeth. Ychwanega er y gall y sefyllfa godi oherwydd ddeinameg a ddeallir yn gyffredin am gam-drin domestig ac y gallai fodoli cyn y rôl ofalu, mae'r tebygolrwydd y bydd hynny'n digwydd yn cynyddu:

- *Pan fydd ganddo anghenion iechyd a gofal sy'n rhy gymhleth i'r gofalwr ac sy'n gofyn am gymorth hirdymor*
- *Pan nad yw'n ystyried anghenion y gofalwr nac aelodau'r teulu*
- *Pan fydd yn trin y gofalwr heb barch na chwarteisi*
- *Pan fydd yn gwrthod cymorth a chefnogaeth allanol, gan gynnwys seibiannau*
- *Pan fydd yn gwrthod cael ei adael ar ei ben ei hun yn ystod y dydd neu'r nos*
- *Pan fydd ganddo reolaeth dros adnoddau ariannol, eiddo a threfniadau byw*
- *Pan fydd yn cyfleu ymddygiad camdriniol, ymosodol neu frawychus*
- *Pan fydd ganddo hanes o gamddefnyddio sylweddau*
- *Pan y canfyddir bod ganddo ymddygiad anarferol neu dramgwyddus*
- *Pan na fydd yn deall ei weithredoedd na'i effaith ar y gofalwr*
- *Pan fydd yn ddig ynglŷn â'i sefyllfa ac yn ceisio cosbi eraill amdani*
- *Pan fydd wedi gofyn am help neu gymorth ond nad oedd yn cyrraedd y trothwyon*
- *Gwaethygir y sefyllfa ofalu gan effaith natur a graddau'r ynysu emosiynol a/neu gymdeithasol y gofalwr neu'r person sy'n cael cymorth.*

9.29 Fel y soniwyd yn gynharach, barn y panel adolygu yw mai dirywiad yn llesiant meddyliol Betty oedd achos y ffræo a'r gwrthdaro rhyngddi hi a John, ac nid oes unrhyw hanes o gwbl (na hyd yn oed unrhyw awgrym gan y rhai oedd yn eu hadnabod yn dda) bod John erioed wedi bod yn dreisgar neu'n gamdriniol fel arall tuag at Betty cyn y digwyddiadau a arweiniodd at farwolaeth Betty.

9.30 Wrth gwrs, mae'r panel adolygu wedi cael y fantais o edrych yn ôl wrth ddod i'r casgliadau hyn yn ogystal â'r cyfle i ystyried tystiolaeth a gwybodaeth gan ffrindiau a chymdogion Betty a John nad oedd ar gael i weithwyr proffesiynol cyn marwolaeth Betty. Er nad oedd John yn ystyried ei hun yn ddioddefwr cam-drin domestig (gweler isod), roedd ei gyflwyniadau i'r heddlu, i'w Feddyg Teulu ac i eraill yn cyd-fynd â rhywun oedd yn dioddef cam-drin domestig. Mae'n dilyn felly y

dylai'r cyflwyniadau hynny (a'r hyn a ddywedodd Betty wrth ei Meddyg Teulu (a gwasanaeth eiriolaeth y Cyngor Iechyd Cymuned²⁵) hefyd fod wedi dangos bod Betty yn cam-drin John.

10. CYMRYD RHAN YN YR ADOLYGIAD

- 10.1 Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r hyn roedd John wedi'i ddweud wrth Gadeirydd yr adolygiad a'r hyn y mae rhai o ffrindiau a chymdogion Betty a John wedi'i ddweud. Gwelir bod y ffrindiau a chymdogion yn dweud bod John yn cael ei fwlio gan Betty, ond mae John yn bendant na chafodd ei fwlio nac ychwaith ei fod erioed wedi dioddef cam-drin domestig. Fodd bynnag, mae teimlad cryf ymhlith y ffrindiau a chymdogion bod John wedi ei gael ei hun mewn sefyllfa amhosibl a'i fod i bob pwrpas wedi cael ei 'adael i lawr gan y system' oherwydd ei fod wedi ymdrechu'n galed i ddod o hyd i gymorth ar gyfer Betty gyda'i phroblemau iechyd meddwl, ond ni allai neb ymyrryd oherwydd nid oedd hi'n cydnabod bod angen cymorth arni.
- 10.2 Mae'r wybodaeth wedi cael ei chynnwys dim ond er mwyn rhoi cyd-destun i'r hyn oedd yn digwydd ym mherthynas Betty a John. Fel y soniwyd eisoes, mae'r panel adolygu'n awyddus i bwysleisio nad yw'n ystyried mai Betty oedd ar fai am yr hyn a ddigwyddodd, ac nid yw'n ceisio lleihau nac esgusodi'r hyn a wnaeth John.
- 10.3 **JOHN**
- 10.4 Ysgrifennodd Cadeirydd yr adolygiad at John i egluro bod adolygiad lladdiad domestig yn cael ei gynnal ac i ofyn a fyddai'n barod i gymryd rhan ynddo. Cytunodd a gwnaethpwyd trefniadau i ymweld ag ef yn y carchar ym mis Mawrth 2020, ond oherwydd Covid-19, bu'n rhaid canslo'r ymweliad un-i-un. Yn y diwedd, trefnwyd cyfarfod fideo-gynadledda yn lle hynny.
- 10.5 Dywedodd John nad oes awr yn mynd heibio pan nad yw'n meddwl am Betty, cariad ei fywyd. Ychwanegodd ei fod yn difaru'i enaid am beth ddigwyddodd a hyd heddiw nid yw'n gwybod go iawn pam y gwnaeth yr hyn a wnaeth e na hyd yn oed beth yn union oedd wedi digwydd. Dywedodd yn ystod yr holl 60 mlynedd roedd e wedi adnabod Betty bod e erioed wedi "*So much as laid a hand on her*".
- 10.6 Dywedodd John fod Betty yn cael ei chamddeall gan y rhai nad oedd yn ei hadnabod cystal ag yntau. Dywedodd ei bod yn fenyw hynod ddeallus a oedd yn drefnus ac yn benderfynol iawn, ond y gallai gael ei gweld yn rhywun gorfodol oedd â barn gryf weithiau, ond roedd y realiti yn hollol wahanol. Ychwanegodd fod Betty yn un o'r bobl mwyaf caredig ac ystyriol roedd e wedi'i adnabod erioed a'u bod wedi cael priodas hapus.
- 10.7 Dywedodd John hefyd ei fod e a Betty wedi cael bywyd da. Roedd ganddyn nhw gartref hyfryd yr oedden nhw'n berchen arno'n llwyr, roedden nhw'n byw mewn pentref braf ac roedd ganddyn nhw gymdogion caredig a chymwynasgar.

²⁵ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/page/99722>

Ychwanegodd nad oedd ganddyn nhw unrhyw bryderon ariannol o gwbl. Dywedodd John ei fod yn treulio llawer o'i amser '*doing up the house*', yn gweithio yn yr ardd a '*fiddling around with mechanical things*', a Betty oedd yn trefnu ac yn cynllunio pethau.

- 10.8 Dywedodd John fod llawer o'u ffrindiau a chymdogion wedi ei gefnogi ers marwolaeth Betty, gan gynnwys ceisio dwyn perswâd ar yr awdurdodau i'w ryddhau o'r carchar yn gynnwys a hyd yn oed ei helpu'n ariannol i sicrhau ei fod yn gallu dychwelyd i'w gartref ei hun ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r carchar. Pan oedden nhw'n gallu (cyn Covid-19) fe wnaethon nhw ymweld ag ef yn y carchar, ac yn ystod y pandemig roedden nhw mewn cysylltiad rheolaidd dros y ffôn.
- 10.9 Dywedodd nad oedd Betty wedi bod yn berson cymdeithasol iawn a phe bai'n cael y dewis byddai'n well ganddi '*Keep herself to herself*'. O ganlyniad, pan oedd ffrindiau a chymdogion yn gweld neu'n clywed Betty fel arfer roedd hynny pan oedd hi'n cael problemau mawr gyda'i hiechyd meddwl, ac yn ystod y cyfnodau hynny, a oedd weithiau'n gyfnodau byr iawn, gallai roi'r argraff nad oedd hi'n berson neis iawn. Ychwanegodd John fod ymddygiad Betty wedi bod yn fwyfwy anrhagweladwy ac anodd yn ystod tair blynedd olaf ei bywyd a'i fod wedi '*opened-up*' i'w gymdogion am hyn yn niffyg popeth arall, a allai fod wedi gwneud iddynt feddwl ei fod yn cael ei reoli neu ei fwlio gan Betty, ond roedd y realiti yn hollol wahanol.
- 10.10 Dywedodd John y gallai Betty fod yn iawn am wythnosau, ac yna'n sydyn, ac am ddim rheswm amlwg, byddai'n '*Fly off the handle*' a'i gam-drin ar lafar. Weithiau byddai Betty yn dechrau sgrechian ar rywun ar y teledu am fater gwleidyddol y gwyddai nad oedd ganddi unrhyw ddiddordeb ynddo ac yna'n sydyn byddai '*the real Betty*' again; it was as if someone had flicked a switch'. Dywedodd weithiau ar ôl iddi dawelu y byddai'n dweud pethau fel "Please don't ever leave me, you're my rock and I'd be lost without you". Ychwanegodd y byddai Betty yn chwalu llestri ac addurniadau yn y tŷ weithiau, rhai ohonynt o werth sentimental mawr iddi. Dywedodd doedd dim ots pa mor galed roedd e'n ceisio gwneud hynny, doedd e ddim yn gallu rhesymu â hi, a'r mwyaf roedd e'n ceisio ei thawelu y gwaethaf roedd hynny yn ei gwneud hi.
- 10.11 Dywedodd John y byddai Betty yn dweud wrtho naill ai nad oedd e yn ei charu hi mwyach neu fod ganddo fwy o ddiddordeb mewn gwyllo teledu neu weithio yn ei sied nag oedd ganddo ynddi hi. Dywedodd ei fod wedi sylweddoli ar ôl ychydig mai'r ffordd orau o dawelu'r sefyllfa oedd gadael y tŷ am ychydig. Dywedodd ei fod naill ai'n cysgu yn ei Land Rover, mewn llety gwely a brecwast lleol, neu byddai'n gyrru i Ganolbarth Lloegr i weld ei ffrindiau. Ychwanegodd na allai byth aros i ffwrdd am hir oherwydd ei fod yn poeni cymaint am Betty.
- 10.12 Ychwanegodd John y byddai Betty yn yfed gormod o alcohol weithiau flynyddoedd yn ôl ond ei bod hi wedi rhoi'r gorau i yfed yn gyfan gwbl wedyn. Ond yn ddiweddar roedd Betty wedi dechrau yfed eto. Dywedodd nad oedd Betty erioed wedi ei fygwth yn gorfforol, ond roedd yn poeni pan oedd hi mewn '*rage*', yn enwedig os

oedd hi wedi bod yn yfed ac yn taflu pethau o gwmpas y tŷ, y gallai hi anafu ei hunan yn ddamweiniol.

10.13 Dywedodd John yn ystod y ddwy flynedd cyn marwolaeth Betty ei fod '*at his wit's end*' a bod e ddim yn gwybod beth i'w wneud. Dywedodd bod e a Betty hyd yn oed wedi trafod cael ysgariad er nad yr un ohonyn nhw eisiau hynny mewn gwirionedd, ac mai'r unig reswm iddo gysylltu â'u cyfreithiwr amdano oedd oherwydd nad oedd e'n gwybod ble arall i fynd am gymorth.

10.14 Dywedodd John ei bod yn amlwg bod gan Betty broblem gyda'i hiechyd meddwl ac yn ei anobaith dechreuodd geisio dod o hyd i gymorth iddi, ond roedd bob amser yn gwybod na fyddai Betty yn fodlon derbyn cymorth hyd yn oed pe bai'n cael ei gynnig oherwydd doedd hi byth wedi derbyn bod ganddi broblem. Dywedodd ei fod wedi edrych trwy'r llyfr ffôn a'r rhyngwrwyd yn chwilio am gymorth ac ar un achlysur fe ffoniodd yr hyn roedd e'n meddwl oedd yn llinell gymorth ar gyfer iechyd meddwl, ond rhif ffôn yr heddlu oedd e. Ychwanegodd fod yr heddlu wedi dod i'r tŷ a gwneud eu gorau i berswadio Betty i adael iddyn nhw fynd â hi i'r ysbyty, ond gwrthododd hi fynd. Roedd yr heddlu hefyd wedi trefnu i nyrs iechyd meddwl fynd i'r tŷ, ond ni fu ei hymdrechion i berswadio Betty i dderbyn cymorth yn llwyddiannus. Dywedodd John fod ymweliad yr heddlu â'u tŷ yn ganolbwynt i '*rages*' Betty wedi hynny a'i bod hi wedi ei gyhuddo o godi cywilydd arni o flaen ei chymdogion.

Sylw: *Erbyn hyn rydym ni'n gwybod bod Betty wedi ceisio dod o hyd i'r nyrs iechyd meddwl ddeuddydd yn ddiweddarach a'i bod wedi ffonio gwasanaeth eiriolaeth y Cyngor Iechyd Cymuned yn gofyn am gymorth (gweler paragraff 11.11 ymlaen).*

10.15 Dywedodd John ei fod wedi siarad â'i Feddyg Teulu am Betty, gan obeithio cael rhywfaint o gymorth iechyd meddwl iddi, ond cafodd wybod, oni bai bod Betty ei hun yn derbyn y cymorth doedd dim y gellid ei wneud. Cynigiodd y Meddyg Teulu ymweld â Betty gartref, ond dywedodd John ei fod yn meddwl bod hynny'n wastraff amser yn ôl pob tebyg oherwydd bod Betty yn bendant nad oedd dim o'i le arni.

10.16 Dywedodd John nad oedd erioed wedi meddwl am y term '*cam-drin domestig*', oherwydd nid oedd yn dioddef ohono, ac yn sicr nid oedd Betty yn ei gyflawni; roedd hi'n fenyw a oedd, heb unrhyw fai ar ei rhan hi, weithiau'n ymddwyn yn groes i'w chymeriad, ac oherwydd ei fod e '*In the firing line*' fe oedd yn dioddef y rhan fwyaf ohono.

10.17 Yna cafodd Cadeirydd yr adolygiad a John sgwrs am argraffiadau eu cymydog o'r hyn oedd wedi bod yn digwydd rhyngddo ef a Betty. Roedd yn deall pam eu bod nhw efallai'n meddwl ei fod wedi cael ei gam-drin gan Betty, ond mynnodd eu bod yn anghywir a'i fod e a Betty fod yn bâr priod normal a bod unrhyw anawsterau roedden nhw wedi'u cael yn rhai dros dro ac wedi'u hachosi'n llwyr gan ei salwch meddwl.

10.18 Dywedodd John ei fod yn ymwybodol bod rhai pobl efallai'n meddwl ei fod e'n *'Looking through rose-tinted spectacles'*, ond ni chafodd ei orfodi na'i reoli mewn unrhyw ffordd gan Betty mewn gwirionedd. Ychwanegodd nad oedd Betty ar unrhyw adeg yn ystod eu bywyd gyda'i gilydd wedi ceisio gorfodi ei hewyllys arno, ond eu bod yn bobl wahanol iawn. Doedd ganddo e, er enghraifft, ddim diddordeb mewn materion ariannol, ond roedd gan Betty ddiddordeb yn hynny, felly fe gymerodd hi'r rôl o reoli eu harian. Dywedodd nad oedden nhw'n brin o arian a'i fod bob amser yn gallu prynu'r hyn roedd ei eisiau. Dywedodd John hefyd fod Betty yn ei annog i gael ffrindiau a *'Go for a pint'* gyda nhw pryd bynnag roedd e am wneud hynny, a'i fod yn gwneud hynny bob dydd Gwener. Dywedodd pe byddai am wneud hynny gallai fod wedi mynd allan bob dydd, ond ei fod yn fwy na bodlon ar ei fywyd nes i Betty fynd yn sâl.

10.19 Dywedodd John cyn i Betty farw nad oedd yr heddlu, y Meddyg Teulu na'i ffrindiau na chymdogion erioed wedi sôn am y term 'cam-drin domestig' wrtho. Gofynnodd Cadeirydd yr adolygiad iddo, yn ddamcaniaethol, beth allai fod wedi digwydd pe bai wedi cael ei grybwyll. Dywedodd John y byddai wedi ei ddiystyru yn ôl pob tebyg oherwydd roedd e'n meddwl am gam-drin domestig fel ymosodiad corfforol gan ŵr ar ei wraig. Ychwanegodd y byddai wedi cysylltu â gwasanaeth cam-drin domestig dim ond pe bai rhywun wedi gallu ei argyhoeddi y byddai wedi ei helpu i gael cymorth ar gyfer salwch meddwl Betty. Dywedodd John nad oedd e erioed wedi clywed am raglenni cyflawnwyr cam-drin domestig, ond na fyddai Betty byth wedi mynychu un beth bynnag, yn gyntaf oherwydd nad oedd hi'n gyflawnwr ac yn ail oherwydd na fyddai hi byth eisiau gwneud unrhyw beth â'r hyn y byddai hi wedi'i ddisgrifio fel *'the do-gooder brigade'*. Dywedodd gan ei fod yn dod o genhedlaeth hŷn efallai fod ganddo ef (a Betty) ragfarn yn erbyn gwasanaethau o'r natur honno oherwydd eu hagwedd hen ffasiwn o *'just getting on with life'*. Dywedodd hefyd ei fod yn ei chael hi'n anodd trafod ei fywyd preifat gydag unrhyw un, oherwydd ei ryw a'i oedran mae'n debyg, ond ei fod wedi cael ei orfodi i wneud hynny oherwydd ei fod mor bryderus am Betty.

10.20 Yn olaf, dywedodd John mai ef oedd yr unig un i'w feio am yr hyn a ddigwyddodd i Betty ond, serch hynny, mae'n teimlo'n gryf bod Betty wedi cael ei gadael i lawr gan *'the system'* oherwydd ei bod yn amlwg nad oedd hi'n iach, ac nid oedd unrhyw un yn gallu gwneud dim i'w helpu.

10.21 **TEULU BETTY**

10.22 Ysgrifennodd Cadeirydd yr adolygiad at ddwy chwaer Betty a'i brawd yn gofyn a fyddent yn fodlon cymryd rhan yn yr adolygiad. Anfonwyd taflenni gwybodaeth y Swyddfa Gartref atynt hefyd ar gyfer aelodau o'r teulu am adolygiadau lladdiad domestig. Atebodd un o frodyr a chwirydd Betty gan ddweud oherwydd nad oeddent wedi bod mewn cysylltiad â Betty ers dros 20 mlynedd eu bod yn teimlo na allent gyfrannu.

10.23 **CYFREITHIWR BETTY A JOHN**

10.24 Roedd Cadeirydd yr adolygiad wedi cyfweld â'r cyfreithiwr yn ei swyddfa. Roedd Betty wedi cysylltu ag ef yn gyntaf ym mis Tachwedd 2017 ynglŷn ag anghydfod â rhai o'r cymdogion ynghylch coeden yn eu gardd. Yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa, roedd y cyfreithiwr wedi dweud wrth Betty na ellid gwneud dim yn ei glych.

10.25 Ym mis Medi 2018, dywedodd Betty wrth yr un cyfreithiwr ei bod hi a John am wneud Ewyllys.

Sylw: *Nid oedd yr Ewyllysiau yn cynnwys unrhyw beth o bwys i'r adolygiad hwn.*

10.26 Y tro nesaf i'r cyfreithiwr ddod i gysylltiad â naill ai Betty neu John oedd ar ddechrau Mai 2019 pan aeth John i'w weld yn ei swyddfa i drafod cael ysgariad. Dywedodd John mai Betty oedd am gael ysgariad ac nid ef, gan ychwanegu ei fod yn meddwl bod Betty yn sâl oherwydd dros y blynyddoedd diwethaf roedd hi wedi bod yn ffraeo mwy gydag ef a phawb arall. Dywedodd y cyfreithiwr wrth John oherwydd ei fod wedi gweithredu ar ei ran e a Betty ar gyfer eu hewyllysiau ni allai weithredu ar ei ran mewn achos o ysgariad.

10.27 Dywedodd John wrth y cyfreithiwr ei fod wedi siarad â Meddyg Teulu Betty am ei bryderon amdani a'i fod wedi ceisio dod o hyd i ychydig o gwnsela ar gyfer Betty, ond bod pawb wedi ei gwneud yn glir iddo oni bai bod Betty ei hun am ymgysylltu â gwasanaethau, ni allent ymyrryd.

10.28 Dywedodd y cyfreithiwr nad oedd John ar unrhyw adeg wedi siarad yn angharedig am Betty a'i bod yn amlwg ei fod yn ei charu ac am ei helpu hi. Dywedodd y cyfreithiwr wrth John fod Meddyg Teulu Betty a'r cwnselwyr wedi bod yn gywir ac nad oedd unrhyw beth y gallai unrhyw un ei wneud i helpu Betty os nad oedd hi am gael cymorth.

10.29 Dywedodd John wrth y cyfreithiwr nad oedd e am gael ysgariad a'i fod yn poeni'n fawr am Betty. Ychwanegodd ei fod wedi galw'r heddlu i'w dŷ ar gam (roedd e wedi bwriadau ffonio'r gwasanaethau iechyd meddwl) a byth ers hynny bod Betty wedi dweud y drefn wrtho a bod hyn wedi ei adael mewn sefyllfa anhapus gartref. Cynghorodd y cyfreithiwr John i adael Betty a chynigiodd roi manylion cyfreithwyr eraill i John a allai weithredu ar ei ran, ond gwrthododd John y cynnig.

10.30 Ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach ffoniodd Betty yr un cyfreithiwr i ofyn faint fyddai ysgariad yn ei gostio a dywedodd y cyfreithiwr wrthi nad oedd yn gallu gweithredu ar ei rhan. Yn ystod yr alwad roedd Betty hefyd yn gweiddi ar John gan ddweud ei fod e byth yn paratoi pryd o fwyd iddi a'i fod wedi prynu modrwy yr union yr un fath iddi ar benblwyddi olynol. Yna daeth John ar y lein i ddweud wrth y cyfreithiwr fod Betty yn dweud y drefn wrtho o hyd a'i fod wedi bod yn cadw allan o'i ffordd. Dywedodd y cyfreithiwr ei fod yn teimlo nad oedd ganddo unrhyw ddewis arall ond dod â'r galwad i ben.

10.31 **FFRINDIAU BETTY A JOHN**

10.32 **FFRIND UN**

Sylw: Cynhaliwyd y cyfweiliad gyda Ffrind Un dros y ffôn oherwydd materion yn ymwneud â Covid-19.

10.33 Roedd Ffrind Un wedi adnabod Betty a John am fwy na 23 mlynedd. Fel y nodwyd ym mharagraff 1.6 o'r adroddiad hwn, ar y diwrnod cyn iddi farw roedd Betty a John wedi cael ffræ. Wedyn roedd John wedi gyrru i gartref Ffrind Un yn Lloegr. Dywedodd y ffrind wrth Gadeirydd yr adolygiad fod John yn amlwg wedi cynhyrfu'n lân, felly gwnaeth bryd o fwyd iddo a chynnig gwely iddo am y noson, ond gwrthododd John gan ddweud bod angen iddo fe fynd yn ôl adref i ofalu am Betty oherwydd ei fod yn poeni cymaint amdani.

10.34 Dywedodd John wrth Ffrind Un bod e ddim yn gwybod beth i'w wneud a'i fod wedi ceisio cyngor gan ei Feddyg Teulu a'r heddlu ond doedden nhw ddim yn gallu gwneud unrhyw beth i helpu.

10.35 Dywedodd y ffrind hyd at ychydig flynyddoedd cyn marwolaeth Betty ei fod wedi meddwl bod y berthynas rhwng Betty a John yn un hapus a'u bod yn cyd-dynnu'n dda; disgrifiodd nhw fel *'just a normal couple'*.

10.36 Ychwanegodd Ffrind Un ei fod yn ymwybodol bod Betty wedi cweryla â llawer o bobl yn ystod y tair blynedd cyn ei marwolaeth, gan gynnwys ei ffrind gorau (Ffrind Dau). Yng ngeiriau Ffrind Un ei hun, *"She would just turn nasty and jump down your throat"*. Y tro diwethaf i Ffrind Un siarad â Betty oedd yn ei dŷ efallai flwyddyn neu ddwy cyn ei marwolaeth. Roedd Betty a John wedi dweud eu bod yn mynd i gael ci bach a gofynnodd Ffrind Un i Betty pam y bydden nhw'n gwneud y fath beth pan oedd John eisoes dros 80 oed. Yn ôl Ffrind Un, roedd Betty wedi *"flew off the handle"* gydag ef. Dywedodd fod yn rhaid iddo ddweud wrthi nad oedd yn iawn iddi siarad ag ef fel 'na.

10.37 **FFRIND DAU**

Sylw: Cynhaliwyd y cyfweiliad gyda Ffrind Dau dros y ffôn hefyd oherwydd Covid-19.

10.38 Roedd Ffrind Dau wedi adnabod Betty a John ers bron i 30 mlynedd. Disgrifiodd ei pherthynas gyda'r ddau fel perthynas agos heblaw yn ystod y tair blynedd cyn marwolaeth Betty ar ôl i Betty benderfynu nad oedd am i'w cyfeillgarwch barhau.

10.39 Dywedodd Ffrind Dau pan gyfarfu â Betty am y tro cyntaf bod hynny yn rhinwedd broffesiynol. Roedd Ffrind Dau wedi cynrychioli Betty mewn tribiwnlys diwydiannol. Dywedodd fod helpu Betty wedi cymryd llawer o amser ac o ganlyniad eu bod wedi treulio llawer o amser gyda'i gilydd. Dywedodd Ffrind Dau fod Betty a John wedi dod yn ffrindiau gorau iddi a'i bod yn meddwl amdany'n nhw fel brawd a chwaer hŷn. Roedd eu perthynas yn un dda ac roedden nhw'n aros yng nghartrefi ei gilydd am benwythnosau ac yn mynd ar wyliau gyda'i gilydd.

10.40 Dywedodd Ffrind Dau fod Betty yn gymeriad cymhleth. Roedd hi'n siarad yn eglur ac yn uchel ei chloch, yn enwedig wrth siarad am wleidyddiaeth. Disgrifiodd John fel cymeriad syml gyda natur *'laid-back'*. Y cyfan roedd ei eisiau oedd bywyd tawel. Roedd yn mwynhau ambell i ddiwedd yn ei dafarn leol gyda ffrindiau, yn gweithio ar ei gar, ac yn helpu pobl yn gyffredinol.

10.41 Esboniodd Ffrind Dau y byddai Betty yn chwethin yn afreolus un funud ac yna'n sydyn byddai'n wyllt gacwn. Pan ddigwyddai hynny roedd hi'n gamdriniol, haerllug ac yn anghwrtais a byddai'n sarhau'n ddifrifol unrhyw un a fyddai'n dod i'w meddwl. Ychwanegodd Ffrind Dau y byddai Betty yn cael ffrwydrad fel hyn tuag unwaith bob chwe wythnos i ddechrau, ond yn ystod blynyddoedd olaf eu cyfeillgarwch roedd yn ddigwyddiad dyddiol bron. Dywedodd Ffrind Dau nad oedd unrhyw sbardun amlwg i'r ffrwydradau ac y byddent yn aml yn dechrau pan fyddai'n gweld rhywbeth neu rywun ar y teledu roedd hi'n anghytuno ag ef neu hi.

10.42 Dywedodd Ffrind Dau fod Betty yn gwybod bod ei hymddygiad yn afresymol ac yn ddinistriol ar adegau, ond nad oedd hi'n gallu ei reoli. Pan oedd Betty wedi tawelu, dywedodd Ffrind Dau wrthi ar sawl achlysur pethau fel, *"It only takes two doctors you know"* (gan gyfeirio at asesiadau iechyd meddwl), a byddai Betty yn chwethin ac yn dweud, *"Yes I'd be sectioned wouldn't I?"*.

10.43 CYMDOGION BETTY A JOHN

Sylw: *Cynhaliwyd y cyfweiliadau gyda'r cymdogion i gyd ar lwyfannau fideo-gynadledda.*

10.44 Dywedodd pâr oedd yn byw yn weddol agos at Betty a John fod John yn berson tawel, digyffro oedd yn hawdd iawn cyd-dynnu ag ef. (Roedden nhw mewn cysylltiad rheolaidd ag ef dros y ffôn yn y carchar a chyn-Covid-19 roedden nhw wedi ymweld ag e yno). Dywedon nhw ei fod yn berson ymarferol, *'hands-on'*, a oedd i'w weld yn mwynhau ei ymddeoliad, a'i fod yn hoffi treulio ei amser yn yr ardd ac yn gweithio ar brosiectau gwahanol o gwmpas y cartref. Yn gymdeithasol, byddai'n mynd i mewn i'r dref mewn tacsî amser te dydd Gwener i gael diod gyda ffrindiau, a byddai'n dychwelyd ychydig oriau'n ddiweddarach.

10.45 Dywedon nhw fod Betty yn hollol wahanol i John ac nad oedden nhw'n cael fawr o gysylltiad uniongyrchol â hi. Dywedodd y cymdogion eu bod yn aml yn clywed Betty yn gweiddi ac yn defnyddio iaith anwedus gyda John, oedd yn cael ei ddilyn yn aml gan sŵn drysau'n cau'n glep. Doedden nhw erioed wedi clywed John yn codi ei lais mewn ymateb ar roedden nhw dan yr argraff mai cerdded i ffwrdd oedd ei ffordd e o ddelio â'r sefyllfa. Roedd John yn amlwg yn teimlo cywilydd am hyn ac ar yr ychydig achlysuron y cododd hyn wrth sgwrsio dywedodd ei fod wedi ceisio cael cymorth ar gyfer Betty gyda'i hiechyd meddwl, ond pan gafodd ei gynnig ei bod hi wedi mynnu nad oedd ei angen arni.

10.46 Dywedodd y cymdogion nad oedden nhw erioed wedi ystyried sefyllfa John yn nhermau cam-drin domestig ac yn sicr nid oedd John erioed wedi awgrymu ei fod

yn teimlo ei fod yn dioddef ohono. Maen nhw'n dweud, hyd yn oed nawr, fod John yn dal i siarad am Betty yn y termau mwyaf cariadus a'u bod yn gwybod ei fod yn llawn edifeirwch am yr hyn a ddigwyddodd.

10.47 Roedd cymydog arall, ymarferwr gofal cymdeithasol proffesiynol, hefyd wedi cymryd rhan yn yr adolygiad. Dywedodd fod ei gŵr yn ffrindiau agos gyda John. Daeth hi i adnabod John yn eithaf da hefyd. Er bod John yn ddyn tawel a phreifat, byddai'n dweud wrthyn nhw ei fod yn poeni'n fawr am iechyd meddwl Betty. Gofynnodd iddyn nhw am gyngor a dywedon nhw wrtho i gysylltu â'r heddlu os oedd y sefyllfa'n dechrau mynd allan o reolaeth oherwydd bydden nhw (yr heddlu) yn cysylltu â'r gwasanaethau iechyd meddwl os oedd y sefyllfa'n haeddu hynny. Fe awgrymon nhw hefyd y dylai siarad â Meddyg Teulu Betty yn y gobaith y gallai fod yn bosibl cychwyn asesiad iechyd meddwl ar gyfer Betty.

10.48 Roedd y cymydog yn adnabod Betty hefyd, ond ddim yn dda iawn oherwydd roedd hi'n tueddu i gadw ei hun iddi hi ei hun. Dywedodd y gallai Betty fod yn gallu bod yn berson hyfryd a charedig ar adegau, ond am ddim rheswm amlwg byddai'n newid ac yn mynd yn bell, yn anghwrtais, ac yn ddiystyriol. Dywedodd y cymydog, wrth edrych yn ôl, ei bod yn credu bod John yn cael ei reoli a'i orfodi gan Betty a bod hynny wedi dod yn fwy difrifol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ychwanegodd nad oedd hi erioed wedi meddwl am John fel dioddefwr cam-drin domestig a bod ei ffocws bob amser wedi bod ar iechyd meddwl Betty a'r ffordd orau o gael y cymorth yr oedd mor amlwg ei hangen arni.

10.49 Yn olaf, dywedodd y cymydog, yn y misoedd cyn marwolaeth Betty, fod iechyd corfforol John wedi gwaethygu'n sylweddol; roedd e wedi colli pwysau ac roedd e'n edrych wedi blino'n lân. Ers sawl wythnos roedd John wedi bod yn cysgu yn ei hen Land Rover neu mewn llety gwely a brecwast oherwydd bod Betty (yn ei eiriau ef) "*Had just lost it*", ac roedd e am dawelu'r sefyllfa. Roedd y cymydog wedi cynnig tŷ gwag roedd yn berchen arno i John ei ddefnyddio, ond gwrthododd gan ddweud bod rhaid iddo fod yno ar gyfer Betty oherwydd ei fod yn ei charu a'i fod yn poeni amdani.

11. CYSYLLTIAD ASIANTAETHAU Â BETTY A JOHN

11.1 Ychydig iawn o gysylltiad gafodd asiantaethau gyda naill ai Betty neu John. Mae'r canlynol yn grynodedb o'r cysylltiad a fu rhyngddynt ynghyd â rhai o sylwadau'r panel adolygu am hyn.

11.2 CHWEFROR 2018

Ym mis Chwefror 2018 dywedodd Betty wrth ei Meddyg Teulu ei bod hi'n teimlo mewn hwyliau isel a'i bod wedi bod yn yfed yn ddiweddar oherwydd salwch a galaru am bobl oedd wedi marw yn Lloegr. Mae'r cofnodion yn nodi iddi ddweud ei bod wedi rhoi'r gorau i yfed bellach ond ei bod yn poeni bod hyn wedi achosi difrod y tu mewn i'w chorff. Gwnaethpwyd trefniadau i Betty gael prawf gwaed gweithrediad yr afu.

Sylw: *Flynyddoedd lawer ynghynt, cofnodwyd bod Betty yn yfwr trwm. Yn 2016 roedd y cofnodion yn nodi ei bod yn llwrymwrthod ac yn 2017 nodir ei bod yn yfwr achlysurol. Yn ystod yr adolygiad hwn, gofynnwyd i'r Meddyg Teulu a roddwyd ystyriaeth i atgyfeirio Betty am gymorth ar gyfer ei hwyliau isel a'i defnydd o alcohol. Yr ymateb oedd, oherwydd bod Betty wedi rhoi'r gorau i yfed alcohol, roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y niwed posibl a allai fod wedi'i achosi o ganlyniad iddi yfed alcohol yn ddiweddar yn hytrach na phryderon am ei hwyliau isel.*

Yn ôl Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed y lleiaf y bydden nhw wedi disgwyl oedd cael sgwrs ymyriad byr gyda Betty i drafod a fyddai hi wedi hoffi cael cymorth gan y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Yr un oedd y disgwyliadau ar gyfer John a allai fod wedi cael cynnig cymorth 'Rhywun Arall sy'n Pryderu'. Mae'r gwasanaeth yn sgrinio'n rheolaidd ar gyfer cam-drin domestig yn eu holl asesiadau o 'Rywun Arall sy'n Pryderu' a 'Defnyddwyr Sylweddau' waeth beth fo rhyw neu oedran rhywun.

11.3

MEHEFIN 2018

Ddechrau Mehefin 2018, ffoniodd John yr heddlu gan ddweud ei fod e a Betty wedi bod yn cael trafferthion yn eu perthynas ers dwy flynedd, ond bod materion wedi gwaethygu dros y misoedd diwethaf. Dywedodd fod Betty wedi bod yn chwalo pethau, wedi gwylltio, nad oedd modd ei rheoli, a phan oedd e wedi cyrraedd adref yn gynharach y noson honno roedd hi'n feddw ac am yrru i gael mwy o alcohol, felly roedd e wedi mynd â'r allweddi car oddi wrthi. Aeth John ymlaen i ddweud ei fod e a Betty wedi bod yn briod ers hanner can mlynedd, ond yn ddiweddar roedd hi'n dweud nad oedd e byth wedi ei charu hi. Ychwanegodd na allai wneud dim yn iawn cyn belled ag yr oedd Betty yn y cwestiwn. Dywedodd nad oedd yn gwybod a oedd gan Betty salwch meddwl, ond bod hyn yn digwydd yn amlach erbyn hyn. Dywedodd ei fod am gael cyngor a'i fod wedi bod yn cysgu yn ei gar ac mewn llety gwely a brechwast i osgoi Betty.

Sylw: *Dywedodd John wrth Gadeirydd yr adolygiad nad oedd yn gwybod ar y pryd ei fod yn siarad â'r heddlu; roedd e'n meddwl ei fod wedi ffonio llinell gymorth iechyd meddwl.*

11.4

Pan gyrhaeddodd yr heddlu, ymddiheurodd John am eu galw nhw a dywedodd nad oedd yn gwybod beth arall i'w wneud. Ychwanegodd ei fod yn bryderus am iechyd meddwl Betty a'i fod am gael cyngor meddygol yn hytrach na'r heddlu. Dywedodd ei fod e a Betty wedi bod yn mwynhau'r diwrnod oherwydd bod y tywydd wedi bod yn braf, ond roedd Betty wedi troi'n emosiynol ar ôl iddo wrthod eistedd i lawr a gwranddo ar gerddoriaeth glasurol gyda hi. Roedd hi wedi ymateb trwy ddweud nad oedd e'n dangos unrhyw gariad tuag ati hi mwyach a'i bod hi'n meddwl bod e ddim yn ei charu hi mwyach. Dywedodd John fod Betty wedi bod yn yfed gwin trwy gydol y dydd, gan ychwanegu nad oedd e'n siŵr a oedd hi'n anhapus neu a oedd ganddi rai problemau iechyd meddwl sylfaenol.

11.5

Sylwodd y swyddog arall ar lestri oedd wedi torri ar lawr y gegin. Dywedodd Betty ei bod yn iawn a doedd dim angen i'r heddlu fod yno. Cyfaddefodd ei bod wedi torri'r llestri a mynnodd gael gwybod beth oedd John wedi bod yn ei ddweud

amdani. Dywedodd y swyddog wrthi nad oedd John wedi dweud unrhyw beth angharedig amdani dim ond ei fod yn poeni am ei llesiant. Dywedodd Betty os oedd John mor bryderus â hynny yna byddai o leiaf yn eistedd ac yn gwrandao ar gerddoriaeth gyda hi.

- 11.6 Roedd Betty yn chwerthin ar brydiau ac yn awgrymu i'r swyddog ei bod hi (y swyddog) yn ei chyhuddo o fod yn *'mad'*. Gofynnodd y swyddog i Betty a fyddai'n gadael iddyn nhw fynd â hi i'r ysbyty oherwydd eu bod yn pryderu am ei llesiant, ond mewn tŷn penderfynol dywedodd Betty, *"I'm sorry dear, I know you're only trying to do your job, but I will not be attending the hospital with you"*.
- 11.7 Gofynnodd y swyddogion i Betty a fyddai'n barod i gael ymweliad gan y Tîm Brysbennu oedd yn cynnwys gweithiwr iechyd meddwl a heddwad. Dywedodd Betty y byddai hynny'n iawn, ond mynnodd nad oedd ganddi unrhyw broblemau gyda'i hiechyd meddwl ac na fyddai'n mynd i'r feddygfa na'r ysbyty. Eglurodd ei bod hi a John wedi treulio llawer o flynyddoedd yn y Canolbarth, ond nad oedd ganddi lawer o ffrindiau'n lleol er bod ganddi ffrindiau oedd yn *'lived away'* y byddai'n ymweld â nhw am gwpl o nosweithiau bob hyn a hyn. Dywedodd fod John yn mwynhau mynd i'r dafarn weithiau a bod ganddo ychydig o ffrindiau yn lleol, ond yn bennaf roedd yn mwynhau gweithio yn yr ardd ac ar y car yn y sied. Dywedodd Betty nad oedd hi a John yn mynd yn iau a'r cyfan roedd hi eisieu oedd mwynhau'r amser oedd ganddyn nhw ar ôl, ond unig ddiddordeb John oedd ei ardd a'i geir a gwyllo ffilmiau rhyfel ar y teledu. Yna lapiodd ei breichiau o gwmpas ei hunan a dweud mai'r cyfan roedd hi eisieu oedd i John roi cwtsh iddi.
- 11.8 Ym mhresenoldeb y swyddogion, gofynnodd Betty i John pam nad oedd e'n dangos unrhyw gariad tuag ati mwyach a chyfeiriodd John at y gemwaith roedd e wedi'i brynu iddi yn ddiweddar. Dywedodd Betty nad oedd hi'n faterol, ac yna fe geisiodd roi'r gemwaith i un o swyddogion yr heddlu cyn dweud ei bod yn anhapus yn ei pherthynas ac y dylai hi a John fynd eu ffyrdd eu hunain.
- 11.9 Eglurodd y swyddogion er na honnwyd bod unrhyw droseddau wedi digwydd bod rhaid iddynt ddilyn polisi'r heddlu trwy gymryd camau cadarnhaol a mynnu bod John a Betty yn gwahanu am y noson. Dywedodd John ei fod yn barod i dreulio'r noson naill ai gyda ffrind neu y byddai'n aros mewn llety gwely a brecwast lleol.
- 11.10 Mae'r Nyrs Seiciatrig Cymunedol (NSC) o'r Tîm Brysbennu a aeth i'w gweld wedi dweud wrth yr adolygiad hwn fod Betty yn y lolfa pan gyrhaeddodd hi. Siaradodd â hi ar ei phen ei hun ac mae'n cofio Betty yn dweud ei bod wedi cael *"couple of whiskeys"*. Dywedodd Betty wrthi ei bod hi a John wedi bod yn briod ers amser maith a bod eu perthynas yn iawn, ond nid oedd John yn dangos llawer o gariad tuag ati. Ychwanegodd Betty pan oedden nhw'n ifancach doedd hynny ddim wedi bod yn broblem oherwydd bod ganddynt gylch cymdeithasol, ond nawr eu bod yn hŷn roedd yn fwy o broblem. Roedd y Nyrs Seiciatrig Gymunedol yn cofio bod gan Betty a John gartref hyfryd a bod Betty wedi dweud bod ganddyn nhw lawer o arian ac y gallen nhw dalu rhywun i weithio ar y tŷ, ond bod John yn dal i fod yn *"climbing ladders"*, ac y byddai'n treulio *"all day out there"*. Ychwanegodd y NSC

nad oedd unrhyw arwydd bod gan Betty salwch meddwl difrifol neu barhaus a fyddai wedi gofyn iddi hi (y NSC) weithredu ar unwaith.

Sylw: *Gofynnwyd i'r Nyrs Seiciatrig Gymunedol a oedd hi wedi ystyried cynnig atgyfeirio Betty at wasanaethau camddefnyddio sylweddau ar ôl iddi ddweud ei bod wedi yfed wisgi. Dywedodd y Nyrs Seiciatrig Gymunedol fod Betty wedi dweud ei bod hi wedi agor y botel wisgi dim ond i gythruddo John (am mai ei wisgi e ydoedd) ac nad oedd hi wedi yfed dim, felly nid oedd atgyfeiriad yn ystyriaeth.*

- 11.11 Ddeuddydd yn ddiweddarach, ffoniodd Betty wasanaeth eiriolaeth y Cyngor Iechyd Cymuned (NSC) a gadael dwy neges lais iddynt. Yn y negeseuon, dywedodd Betty fod nyrs iechyd meddwl a heddwes wedi ymweld â hi a'u bod wedi gofyn iddi a oedd angen cymorth arni, a bod hi wedi dweud wrthynt nad oedd angen cymorth arni. Dywedodd ei bod wedi newid ei meddwl a'i bod yn ceisio dod o hyd i'r nyrs iechyd meddwl. Dywedodd Betty ei bod angen cymorth arni ar unwaith oherwydd ei bod yn ymddwyn yn ymosodol gydag at ei gŵr a'i bod yn chwalu'r tŷ ac yn yfed trwy'r dydd.

Sylw: *Cynghorau Iechyd Cymuned yw llais annibynnol pobl yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG. Maent yn annog ac yn helpu pobl i gael llais wrth gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG ac yn gyswllt rhwng y rhai sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n ei arolygu a'i reoleiddio, a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.*

- 11.12 Ffoniodd Swyddog Cymorth Eiriolaeth (SCE) y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Betty yr un diwrnod i ofyn am ei chaniatâd i hysbysu meddygfa ei Meddyg Teulu am ei galwadau, a chytunodd Betty. Yna ffoniodd y SCE Reolwr y Feddygfa a ddywedodd i ddechrau y byddai'n anfon llythyr at Betty, ond dywedodd y SCE, oherwydd bod Betty wedi dweud ei bod yn ymddwyn yn ymosodol tuag at ei gŵr bod angen gweithredu ar unwaith. Anfonodd y SCE ebost at Reolwr y Feddygfa hefyd yn nodi'r canlynol: *'Further to my telephone call to you this morning, we spoke about one of your patients under the care of [Doctor]. She has contacted us today raising concerns regarding her wellbeing. She told me she was visited by a mental health nurse from [Town] on Wednesday evening along with a police officer from [Town]. They asked if she needed any further help and the patient said no. She has now however decided that she does need further help and is trying to track this mental health nurse down. As we are not medically trained and only deal with complaints I am referring this patient over to you. As discussed on the phone this morning, she requires immediate help as she said she is being aggressive with her husband and is smashing up the house and drinking all day but she does not know why.'*

- 11.13 Ffoniodd y CIC Reolwr y Feddygfa dridiau'n ddiweddarach (ar ôl y penwythnos) i ofyn beth oedd wedi digwydd. Dywedodd Rheolwr y Feddygfa ei fod wedi ffonio'r tîm argyfwng ond roedden nhw wedi dweud nad oedden nhw wedi bod mewn cysylltiad â Betty. Dywedodd y tîm argyfwng y bydden nhw'n cysylltu â'r NSC. Dywedodd Rheolwr y Feddygfa y byddai'n dilyn hyn i fyny ar ôl ychydig wythnosau. Dywedodd pe bai Betty yn cysylltu â'r CIC eto y dylen nhw gysylltu â meddygfa'r Meddyg Teulu neu'n well byth, dylai Betty wneud apwyntiad i weld y Meddyg Teulu. Yna ffoniodd y SCE Betty i awgrymu ei bod yn gwneud apwyntiad gyda'r

Meddyg Teulu; dywedodd Betty y byddai'n gwneud hynny, er ei bod yn ymddangos i'r SCE fod Betty yn awyddus i ddod â'r sgwrs i ben.

Sylw: *Gwnaeth Rheolwr y Feddygfa gofnod yng nghofnod y claf yn nodi bod gwasanaeth eiriolaeth y CIC wedi cysylltu â nhw a bod y Tîm Argyfwng wedi gweld Betty a'i bod hi wedi gwrthod ymyrraeth.*

Nid oedd John yn ymwybodol o sgysiau Betty gyda'r CIC nes iddo gael gwybod amdanynt gan Gadeirydd yr adolygiad.

- 11.14 Y diwrnod ar ôl i Betty ffonio'r CIC, aeth John i'w orsaf heddlu leol a dywedodd ei fod yn credu y gallai Betty fod yn dioddef o salwch meddwl. Cafodd John ei gynghori i annog Betty i drefnu apwyntiad gyda'i Meddyg Teulu.
- 11.15 Roedd Betty wedi gwneud apwyntiad a dywedodd wrth ei Meddyg Teulu ei bod am i'w gŵr roi cwtshis iddi a doedd e byth yn trafod unrhyw beth mewn bywyd ac yn osgoi ffraeo. Mae'r nodiadau meddygol yn nodi bod Betty wedi dweud ei bod wedi bod yn yfed mwy a'i bod yn rhoi'r bai ar ei gŵr.

Sylw: *Roedd yr ymgynghoriad hwn bedwar diwrnod yn unig ar ôl i Betty wneud y galwadau ffôn i'r CIC a phan oedd y SCE wedi hysbysu Rheolwr y Feddygfa amdano. Cadarnhawyd bod Rheolwr y Feddygfa wedi gwneud nodyn yng nghofnod claf Betty am ei rhyngweithio â'r CIC, felly roedd y Meddyg Teulu wedi colli cyfle amlwg i atgyfeirio Betty at wasanaethau camddefnyddio sylweddau a gofyn iddi am ei hymddygiad ymosodol tuag at John ac ystyried cael cymorth priodol iddi hi (a John).*

- 11.16 Cafodd John ymgynghoriad gyda'r un Meddyg Teulu ar yr un diwrnod. Dywedodd fod Betty yn ymosodol yn eiriol ac yn gorfforol tuag ato a'i bod yn 'smashed things', ond nad oedd hi wedi ei fwrw. Ychwanegodd ei fod wedi galw'r heddlu, ond bod Betty wedi gwrthod cwnsela. Dywedodd wrth y Meddyg Teulu fod Betty wedi bod yn cwyno ers tua thair blynedd nad oedd wedi e'n cwtsio hi a bod hyn wedi mynd yn llawer gwaeth yn ddiweddar. Dywedodd John wrth y Meddyg Teulu ei fod wedi bod yn cysgu yn y car y diwrnod neu ddau diwethaf. Cyfeiriodd y Meddyg Teulu John at y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (GIMSLI) i gael cwnsela. Roedd y llythyr atgyfeirio yn nodi bod Betty am iddo roi cwtshis iddi a gofalu amdani, ond ei fod yn ddyn preifat a'i fod yn ei chael yn anodd gwneud hynny. Ychwanegodd y llythyr fod John wedi dweud bod Betty yn pigo arno fe'n gyson a'i fod yn nerfau i gyd ac yn ystod y ffraeo eithaf difrifol yn ddiweddar, ei bod hi wedi bod yn taflu pethau o gwmpas y tŷ a bod yr heddlu wedi cael eu galw. Roedd yr heddlu wedi awgrymu y dylai'r ddau gael cwnsela, ond roedd Betty wedi dweud wrth y Meddyg Teulu mai John oedd â'r problem ac nid hi.

Sylw: *Er y gwyddys fod Betty a John wedi gweld yr un Meddyg Teulu ar yr un diwrnod, nid yw cofnodion y feddygfa yn glir a gawsant eu gweld gyda'i gilydd neu ar wahân. Fel y nodwyd uchod, roedd manylion y sgysiau/e-byst rhwng Rheolwr y Feddygfa a'r CIC wedi'u dogfennu yn nodiadau meddygol Betty.*

Mae GIMSLI yn wasanaeth ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl cyffredin, ysgafn i gymedrol fel gorbryder, iselder a straen. Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan

gynnwys asesiadau a chyingor iechyd meddwl, cymorth ac atgyfeirio at wasanaethau perthnasol eraill, cyrsiau rheoli straen ac ystod o ymyriadau seicolegol.

11.17 **GORFFENNAF 2018**

Canslodd John ei apwyntiad gyda'r LPMHS a oedd wedi'i drefnu ar gyfer canol mis Gorffennaf, gan ddweud nad oedd angen y gwasanaeth arno, ond ni chofnodir y rheswm pam.

Sylw: *Dywedodd John wrth Gadeirydd yr adolygiad nad oedd e byth wedi bod eisiau cael cwnsela iddo'i hun ac y byddai cadw'r apwyntiad wedi bod yn wastraff amser i bawb, gan ychwanegu pe byddai wedi gallu cael apwyntiad tebyg ar gyfer Betty, byddai wedi bod wrth ei fodd.*

11.18 **TACHWEDD 2018**

Mae nodiadau'r Meddyg Teulu yn nodi bod Betty wedi cael ymgynghoriad yn benodol am ei straen a'i phryder gartref. Mae'r nodiadau'n nodi: *'Have had some relationship difficulties but easing now'*.

Sylw: *Cafodd Betty ei gweld gan Feddyg Teulu gwahanol y tro hwn, ond dylai e/hi fod wedi bod yn ymwybodol bod Betty wedi gofyn am gymorth o'r blaen gyda'i gor-yfed, bygwth ei gŵr, ac ymddygiad camdriniol oherwydd y cofnod yn ei chofnod meddygol ynglŷn â'i chysylltiad â'r CIC.*

11.19 **RHAGFYR 2018**

Cafodd John ymgynghoriad â'r nyrs practis ym mis Rhagfyr 2018, a dywedodd fod Betty yn ymddwyn yn gamdriniol weithiau a'i bod yn chwalu pethau. Dywedodd nad oedd unrhyw sbardun penodol i'w hymddygiad a'i fod wedi dechrau dair blynedd ynghynt a'i fod yn gwaethygu a bod galw'r heddlu i'r tŷ wedi gwaethygu'r sefyllfa. Ychwanegodd John ei fod e a Betty wedi ffraeo cyn yr apwyntiad y diwrnod hwnnw am agor tun. Nodwyd bod John yn rhwystredig oherwydd na fyddai Betty yn gofyn am gymorth ac na allai gael cymorth ar ei chyfer. Trafododd y nyrs practis y mater yn fyr gyda'r Meddyg Teulu Arweiniol Diogelu a gynghorodd y dylai John gyfeirio ei hun at Relate.

Sylw: *Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn chwe mis yn unig ar ôl y sgysiau/e-byst rhwng y CIC a Rheolwr y Feddygfa. Cafodd Betty a John ei gweld gan Feddygon Teulu gwahanol ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2018. Mae'r Arweinydd Diogelu yn Feddyg Teulu gwahanol.*

11.20 Cafodd John ymgynghoriad gyda Meddyg Teulu hefyd yn ddiweddarach ym mis Rhagfyr pan ddywedodd fod Betty wedi bod yn dreisgar ac yn grac dros y pythefnos diwethaf. Cofnodwyd iddo ddweud y gallai Betty *'blow up with neighbours'* a'i bod wedi gwrthod cwnsela. Nodwyd bod John yn *'very cross at lack of support'*. Nododd y Meddyg Teulu hefyd fod ymholiad y gallai Betty fod yn dioddef o ddemtia cynnar.

Sylw: Nid yw'n glir o nodiadau meddygol John ai ef oedd wedi awgrymu dementia neu ai'r Meddyg Teulu oedd wedi awgrymu hyn yn dilyn yr ymgynghoriad.

11.21 DADANSODDIAD O GYSYLLTIAD YR HEDDLU A'R TÎM BRYSBRYNNU Â BETTY A JOHN

11.22 Nid oedd y NSE o'r Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl y gofynnodd yr heddlu iddi ymweld â chartref Betty a John wedi gweld unrhyw arwydd bod gan Betty broblem iechyd meddwl difrifol neu barhaus a oedd yn gofyn am weithredu ar unwaith. Gan nad oedd unrhyw faterion iechyd meddwl (neu alcohol) wedi'u nodi, nid oedd gan y NSE unrhyw reswm dros gyflwyno asesiad risg neu wneud unrhyw atgyfeiriadau i asiantaethau cymorth, ac ni chwblhaodd yr heddlu Risg o Gam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar sail Anrhydedd (DASH). Rhestr Wirio Adnabod (asesiad risg DASH)²⁶ neu Ffurflen Atgyfeirio Aml-Asiantaeth (MARF)²⁷ oherwydd nad oedd ganddynt unrhyw bryderon bod Betty neu John mewn perygl o niwed sylweddol.

Sylw: Mae cwestiynau asesu risg DASH yn seiliedig ar ymchwil helaeth i gam-drin domestig. Y nod yw gwneud asesiad cywir a chyflym o'r perygl y mae'r person yn ei wynebu, er mwyn gallu darparu'r cymorth cywir cyn gynted â phosibl.

Y dyddiau hyn, polisi heddlu Dyfed-Powys yw bod angen cyflwyno asesiad risg DASH ar gyfer pob 'digwyddiad domestig' (gan gynnwys ffraeo llafar), felly byddai achos tebyg sy'n digwydd heddiw yn arwain at gofnodi un.

Gall unrhyw asiantaeth gyflwyno MARF i'r Awdurdod Lleol ar gyfer gofal cymdeithasol a chymorth ar gyfer unrhyw un sydd mewn perygl uniongyrchol o niwed sylweddol.

11.23 DADANSODDIAD O'R CYSYLLTIAD Â MEDDYGFA'R MEDDYG TEULU

11.24 Mae meddygfa'r Meddyg Teulu yn dweud nad oedden nhw'n ymwybodol ar y pryd pa wasanaethau cymorth oedd ar gael yn lleol i ddiodefwr neu gyflawnwyr cam-drin domestig, ond bod ganddynt bellach fynediad at adnoddau megis Llinell Gymorth Byw Heb Ofn²⁸, rhestr wirio asesiad risg DASH, a prosesau atgyfeirio'r Gynhadledd Aml-Asiantaeth Asesu Risg (MARAC)²⁹ a thafleuni'r Comisiynydd Pobl Hŷn ynghylch cam-drin domestig³⁰ a'r ddogfen Llwybr i Gymorth VAWDASV Rhanbarthol. Maent hefyd yn ymwybodol erbyn hyn eu bod yn gallu cysylltu â thîm diogelu corfforaethol y Bwrdd Iechyd os oes angen cyngor diogelu arnynt.

Sylw: Mae MARAC yn gyfarfod lle rhennir gwybodaeth am yr achosion cam-drin domestig risg uchaf rhwng cynrychiolwyr yr heddlu lleol, iechyd, amddiffyn plant, ymarferwyr tai, Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (CTDA), y gwasanaeth prawf ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Ar ôl rhannu'r holl wybodaeth berthnasol sydd ganddynt am ddiodefwr, mae'r cynrychiolwyr yn trafod opsiynau ar gyfer cynyddu diogelwch y diodefwr ac yn troi'r rhain yn gynllun gweithredu cydgysylltiedig. Prif ffocws MARAC yw diogelu'r diodefwr sy'n oedolyn. Bydd y MARAC hefyd yn gwneud cysylltiadau

²⁶ <https://safelives.org.uk/practice-support/resources-identifying-risk-victims-face#:~:text=When%20someone%20is%20experiencing%20domestic,help%20as%20quickly%20as%20possible.&text=Dash%20stands%20for%20domestic%20abuse,extensive%20research%20of%20domestic%20abuse.>

²⁷ <https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1212381/guidance-on-completing-a-pova-form.pdf>

²⁸ <https://gov.wales/live-fear-free>

²⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/multi-agency-risk-assessment-conference-marac-protection-plans-requests-for-evidence>

³⁰ <https://olderpeople.wales/?s=leaflet&t=resource>

â fforymau eraill i ddiogelu plant a rheoli ymddygiad y cyflawnwr. Wrth wraidd MARAC mae'r dybiaeth weithiol na all yr un asiantaeth neu unigolyn weld y darlun cyflawn o fywyd dioddefwr, ond y gallai fod gan bob un fewnwelediad sy'n hanfodol i'w ddiogelwch. Nid yw'r dioddefwr yn mynychu'r cyfarfod ond mae'n cael ei gynrychioli gan CTDA sy'n siarad ar ei ran.

- 11.25 Fodd bynnag, wrth geisio cael cymorth ar gyfer Betty gyda'i phroblemau iechyd meddwl, datgelodd John wybodaeth (ar fwy nag un achlysur) a ddylai fod wedi dangos fan lleiaf ei bod yn bosibl ei fod yn dioddef cam-drin domestig ac mai Betty oedd yn ei chyflawni. Cymerodd Betty yr hyn a oedd yn sicr yn gam enfawr iddi trwy ffonio'r CIC. Dywedodd wrthyn nhw ei bod am ddod o hyd i'r nyrs iechyd meddwl a oedd wedi bod yn ei thŷ a'i bod yn ymddwyn yn ymosodol tuag at ei gŵr, ei bod yn *'smashing up the house'* ac yn yfed trwy'r dydd. Aeth y CIC allan o'i ffordd i wneud yn siŵr bod y wybodaeth wedi'i nodi'n gywir gan feddygfa'r Meddyg Teulu, serch hynny, ni siaradodd neb yno â Betty am y peth erioed, er iddi gael ei gweld gan feddyg teulu ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach. Roedd y rhain yn gyfleoedd clir a gollwyd i helpu Betty a John, er gwaethaf unrhyw ddiffyg gwybodaeth o ran pa wasanaethau cymorth cam-drin domestig a allai fod wedi bod ar gael ar y pryd.

12. Y CYLCH GORCHWYL

- 12.1 Mae pob term i'w weld mewn llythrennau italig trwm ac yn cael ei ystyried ar wahân. Gwneir sylwadau gan ddefnyddio deunyddiau o'r Adolygiadau Rheoli Unigol, gwybodaeth a gasglwyd gan bobl a gafodd eu cyfweld yn ystod yr adolygiad a thrafodaethau panel yr adolygiad lladdiad domestig. Byddai rhywfaint o ddeunyddiau yn addas ar gyfer mwy nag un term a lle bo hynny'n digwydd mae dull cyd-fynd orau wedi'i fabwysiadu er mwyn osgoi dyblygu diangen.

12.2 Cylch Gorchwyl (CG) 1

- ***A oedd y digwyddiad pan fu farw Betty yn ddigwyddiad unigryw ac a oedd unrhyw arwyddion rhybudd a allai fod wedi cael eu nodi gan asiantaethau.***

- 12.3 Nid oes unrhyw hanes neu dystiolaeth hysbys bod John wedi bod yn dreisgar yn gorfforol tuag at Betty o'r blaen, felly yn y cyd-destun hwnnw, roedd y digwyddiad pan fu farw Betty yn un unigryw.

- 12.4 Er bod yr heddlu, meddygfa'r Meddyg Teulu, y CIC a ffrindiau a chymdogion yn ymwybodol o achosion pan oedd Betty i bob golwg wedi bod yn gamdriniol ar lafar tuag at John, nid oedd unrhyw arwyddion rhybudd ei fod yn debygol o ymateb yn dreisgar i hyn. Mae'r rhai oedd yn ei adnabod yn dda yn dweud mai ei ffordd o ymdopi â'r gwrthdaro â Betty oedd cerdded i ffwrdd.

12.5

CYLCH GORCHWYL 2

- ***A ellid gwneud mwy yn lleol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i dioddefwyr cam-drin domestig, yn enwedig i bobl hŷn.***

12.6

Trafodir codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i ddiodefwyr cam-drin domestig yn benodol o fewn meddygfa'r Meddyg Teulu yn CG 4 isod.

12.7

Mae'r panel adolygu yn ymwybodol y dylai codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig fod yn broses gyson, a bod angen ei dargedu at y gymuned ehangach yn ogystal ag at weithwyr proffesiynol. Mae'r adolygiad hwn wedi tynnu sylw'n benodol at yr angen i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaethau cam-drin domestig sydd ar gael i bobl hŷn yn y rhanbarth, a'r llwybrau y gellir eu dilyn i gael mynediad at y gwasanaethau. Yn benodol, mae'r panel adolygu'n cydnabod yr angen i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli a sut, yn arbennig, y gall person hŷn gydnabod ei fod yn dioddef ohono. Roedd angen wedi'i nodi hefyd i bwysleisio nad yw cam-drin domestig yn rhyw benodol, ei fod yn gyffredin ym mhob cymuned, a'i fod yn effeithio ar bobl o bob oed.

12.8

CYLCH GORCHWYL 3

- ***A oedd Betty a John neu eu teulu/ffrindiau/cydweithwyr wedi wynebu unrhyw rwystrau o ran adrodd am unrhyw gam-drin, gan gynnwys a oeddent yn gwybod sut i adrodd am gam-drin domestig, pe byddent wedi dymuno gwneud hynny.***

12.9

Y dystiolaeth yw bod John yn canolbwyntio'n llwyr ar les meddyliol Betty. Pan ofynnwyd iddo am ei ddealltwriaeth o gam-drin domestig, dywedodd ei fod bob amser wedi meddwl amdano yn nhermau trais corfforol a gyflawnwyd gan ŵr ar ei wraig. Dywedodd John nad oedd erioed felly wedi ystyried ei hun yn ddiodefwyr cam-drin domestig ac nid oedd yn meddwl am eiliad y gallai Betty fod wedi cyflawni hyn. Felly roedd ei ddiffyg dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gam-drin domestig yn rhwystr iddo adrodd amdano.

12.10

Dywedodd John fod siarad â phobl eraill am y problemau roedd yn eu cael gartref yn anodd ac yn codi cywilydd arno, a bod ei natur yn ei gwneud hi'n anodd iawn iddo ofyn am gymorth a'i dderbyn. Ychwanegodd fod ei genhedlaeth e yn tueddu i '*just get on with things*', yn hytrach na gofyn i bobl eraill am gymorth, a hyd yn oed pe bai wedi sylweddoli ei fod yn dioddef cam-drin domestig, mae'n debyg y byddai ei fagwraeth a'i agweddau greddfodol wedi bod yn rhwystr iddo ei adrodd.

Sylw: *Mewn astudiaeth ar gam-drin domestig a menywod hŷn³¹, soniodd y cyfranogwyr am y canfyddiad hanesyddol o'r cartref fel lle preifat a 'what went on behind closed doors stayed there'. Roedd cyfranogwyr yr astudiaeth hefyd yn teimlo cywilydd neu embaras ac felly'n cadw eu profiadau'n 'hidden' oddi wrth deulu, ffrindiau a chymdogion.*

³¹ McGarry, J. and Simpson, C (2011). *Domestic abuse and older women: exploring the opportunities for service development and care delivery*. The Journal of Adult Protection Vol 13 No 6.

- 12.11 Nododd yr adroddiad hwn yn gynharach y gallai rhai pobl hŷn fod yn llai ymwybodol na phobl iau o'r gwasanaethau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt (nid yn unig o ran cam-drin domestig), neu efallai eu bod yn credu bod gwasanaethau ar gyfer pobl iau yn unig, neu bobl â phlant ifanc. Dywedodd John wrth Gadeirydd yr adolygiad ei fod wedi ceisio ymchwilio i sut y gallai gael cymorth i Betty ar gyfer ei salwch meddwl, a'i fod wedi edrych trwy'r llyfr ffôn ac wedi chwilio'r rhyngwyd. Dywedodd na allai gofio nawr pa rif ffôn a ddeialodd pan oedd yn meddwl ei fod yn cysylltu â'r gwasanaethau iechyd meddwl ac wedi cysylltu â'r heddlu ar gam, nac ychwaith lle'r oedd e wedi dod o hyd i'r rhif ffôn.
- 12.12 Ni wyddys sut nac ymhle y daeth Betty o hyd i rif ffôn CIC pan benderfynodd chwilio am y NSC, ond mae'n rhaid ei bod wedi goresgyn rhwystrau sylweddol ynddi hi ei hun hyd yn oed i geisio gwneud hynny. I berson oedrannus, annibynnol a chryf mae'n rhaid ei fod yn ddigon anodd, ond roedd hyn hefyd yn erbyn cefndir o haeriadau blaenorol Betty nad oedd angen cymorth arni, a bod unrhyw broblemau roedd hi'n eu cael wedi'u hachosi gan John. Roedd y CIC wedi ffonio Betty nôl a gofyn iddi am ganiatâd i ddweud wrth ei Meddyg Teulu beth oedd wedi digwydd. Mae'n rhaid bod cytuno i hynny ddigwydd wedi bod yn gam mawr arall i Betty ei gymryd, ond mae'n rhaid bod y ffaith na wnaeth meddygfa'r Meddyg Teulu hyd yn oed godi'r pwnc gyda hi yn ystod ymgynghoriad ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach wedi digalonni Betty, ac mae'n rhaid bod hyn wedi creu rhwystr ychwanegol iddi wneud unrhyw ddatgeliadau pellach.
- 12.13 Gwyddys o waith ymchwil bod rhwystrau ychwanegol sylweddol i adrodd am gam-drin domestig mewn cymunedau gwledig o'i gymharu ag ardaloedd trefol³², er enghraifft, adroddir bod argaeledd gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn fwy cyffredinol yn lleihau, ac roedd dioddefwyr yn glir ei bod hi'n fwy anodd ddod i hyd i wasanaethau cam-drin domestig ac ymgysylltu â nhw nag mewn lleoliad trefol. Roedd yr un ymchwil hefyd wedi nodi bod cael eich ynysu oddi wrth ffrindiau a theulu yn ffactor arwyddocaol (er bod pwyslais yr adroddiad ar yr ynysu yn cael ei ddefnyddio fel offeryn cam-drin gan y cyflawnwr). Nid oedd hynny'n wir yn achos Betty a John, ond serch hynny, roedden nhw'n byw bywyd cymharol ynysig, er mai eu dewis nhw oedd hynny. Roedden nhw'n byw mewn pentref eithaf anghysbell, roedden nhw'n dueddol o gadw eu hunain iddyn nhw eu hunain (Betty yn fwy felly na John), ac nid oedd gan y naill neu'r llall unrhyw aelod agos o'r teulu. Roedd John yn gyfeillgar â rhai pobl leol ac roedd rhwydwaith cymdeithasol bach ganddo, ond mewn cymhariaeth, nid oedd hyn yn wir yn achos Betty, felly mae'n rhaid bod eu hynysu, yn enwedig Betty, wedi bod yn rhwystr iddynt gael mynediad at wasanaethau.
- 12.14 Nid oedd y ffrindiau a'r cymdogion a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn yn adnabod Betty yn dda iawn oherwydd ei bod wedi dewis cadw ei hun iddi hi ei hun. Roedden nhw'n ymwybodol bod John yn bryderus iawn am iechyd meddwl Betty ac roedden nhw wedi rhoi cyngor iddo orau y gallent, gan gynnwys dweud y dylai siarad â'i Feddyg Teulu e a Betty ac, os oedd angen, â'r heddlu. Nid oedd ganddynt

³² <https://crimestoppers-uk.org/news-campaigns/news/2017/sep/domestic-abuse-in-rural-communities>

unrhyw reswm gwirioneddol i ystyried cam-drin domestig neu wasanaethau cam-drin domestig oherwydd, cyn belled â'u bod nhw yn y cwestiwn, roedd y materion i gyd yn ymwneud â salwch meddwl Betty, felly ni chododd y cwestiwn yn eu meddyliau nhw o adrodd am gam-drin domestig.

12.15

CYLCH GORCHWYL 4

- ***A oedd cyfleoedd wedi cael eu colli i weithwyr proffesiynol 'wneud ymholiad arferol' ynghylch unrhyw gam-drin domestig a brofwyd gan Betty a John.***

12.16

Ni welodd y panel adolygu unrhyw dystiolaeth bod gweithwyr proffesiynol wedi cydnabod cam-drin domestig yn y berthynas rhwng Betty a John, ac eithrio'r CIC a gymerodd alwadau ffôn Betty o ddifrif ac a wnaeth ei gorau i ysgogi meddygfa'r Meddyg Teulu i weithredu yn syth. Mae ymchwil gan y prosiect Dewis Choice³³ yn honni bod gan weithwyr proffesiynol ragdybiaeth sylfaenol nad yw cam-drin domestig yn digwydd i bobl hŷn, ac felly nid ydynt yn gofyn amdano. Gall agweddau oedraniaethol tuag at bobl hŷn gyfrannu at y ffaith nad yw cam-drin domestig yn cael ei nodi'n gywir gan weithwyr proffesiynol, felly mae'n bwysig nad yw ymarferwyr yn stereoteipio nac yn llunio barn mewn perthynas â phobl hŷn, a'u bod yn archwilio holl brofiadau posibl pobl hŷn mewn ffordd dryloyw a gyda meddwl agored.³⁴

Sylw: *Adran y Gyfraith a Throsedddeg Prifysgol Aberystwyth oedd wedi arwain y prosiect Dewis Choice. Roedd yr ymchwil hwn yn cynnwys astudiaeth hydredol am brofiadau pobl hŷn oedd wedi ceisio cymorth yng Nghymru ar gyfer cam-drin domestig. Mae'r ymchwil a gyhoeddwyd yn ymdrin â rhwystrau i bobl hŷn cael mynediad at gymorth, a'u barn nhw am y gwasanaethau.*

12.17

Mae fframwaith 'Gofyn a Gweithredu' VAWDASV yng Nghymru yn ffafrio ymholiad wedi'i dargedu yn hytrach nag ymholiad arferol. Mae ymholiad wedi'i dargedu yn golygu bod gweithwyr proffesiynol perthnasol yn defnyddio 'trothwy isel ar gyfer gofyn' a yw'r claf yn dioddef cam-drin domestig pan fydd y claf yn cyflwyno ei hun gyda rhai arwyddion o gam-drin. Gall yr ymholiad wedi'i dargedu hefyd gael ei gymhwyso i gyflawnwyr cam-drin domestig.

12.18

Roedd Betty a John wedi bod i'r feddygfa ac roedd John wedi sôn ei fod yn cael ei gam-drin gan Betty, ac wrth gwrs derbyniodd y feddygfa alwadau ffôn ac e-byst gan y CIC am sgysiau Betty gyda nhw a gafodd eu dilyn ganol Mehefin 2018 gan Betty yn dweud wrth ei Meddyg Teulu ei bod hi wedi bod yn yfed mwy a'i bod yn rhoi'r bai ar John. Yna ym mis Tachwedd 2018, cofnododd y Meddyg Teulu fod Betty yn dioddef o straen a gorbryder cyffredinol gartref. Y mis canlynol, yn ystod ymgynghoriad â'r nyrs practis, dywedodd John fod Betty yn ymddwyn yn gamdriniol ac yn chwalu pethau yn y tŷ. Cofnodwyd bod John hefyd yn bryderus y

³³ <https://dewischoice.org.uk/what-we-do/research/projects-at-centre/current-projects/>

³⁴ Wydall, S., Zerk, R. Newman, J. 2015. Crimes against, and abuse of, older people in Wales: Access to support and justice working together. Adroddiad wedi'i gyflwyno i Gomisynydd Pobl Hŷn Cymru. Ar gael yn: <https://dewischoice.org.uk/>

gallai'r cyfan arwain at Betty yn taflu dŵr berwedig neu fraster poeth yn ei thymmer. Mae'r cofnodion yn nodi *"Have had some relationship difficulties, but easing now"*. Yn ddiweddarach y mis hwnnw, dywedodd John wrth ei feddyg teulu fod Betty wedi bod yn dreisgar ac yn ddig yn ystod y pythefnos blaenorol. Mae meddygfa'r Meddyg Teulu yn cofio y byddai Betty yn aml yn dechrau siarad am ei pherthynas ac yna'n *'back-track'* ar yr hyn a ddywedodd. Disgrifiodd y Meddyg Teulu ei fod yn teimlo rhwystredigaeth pan na fyddai Betty yn datgelu'n llawn beth oedd yn digwydd iddi. Eto i gyd, er gwaethaf hyn oll, ni wnaethpwyd unrhyw ymholiad wedi'i dargedu erioed ar gyfer Betty (neu John) ar gyfer cam-drin domestig.

12.19 Mae'r panel ALID wedi nodi bod yr Arweinydd Diogelu a Mynediad at Gyfiawnder yn Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi darparu hyfforddiant cam-drin domestig a phobl hŷn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn 2016 a 2019, ond nid oedd meddygfa Meddyg Teulu Betty a John yn ymwybodol ohono. Yn ogystal, er bod y tîm diogelu corfforaethol yn hyrwyddo llinell gymorth Byw Heb Ofn, nid oedd y nyrs practis yn gwybod amdani ychwaith. Mae angen amlwg i wella cysylltiadau'r Bwrdd Iechyd â meddygfeydd Meddygon Teulu er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a pha adnoddau sydd ar gael iddynt i roi cymorth, nid yn unig i bobl hŷn, ond i bawb yn y gymuned a allai gael eu heffeithio gan gam-drin domestig.

12.20 O ganlyniad i ALID gwahanol yn y rhanbarth, mae'r Pennaeth Diogelu wedi gweithio gyda'r Cynghorydd VAWDASV Rhanbarthol i lunio cynnig i roi cynllun peilot IRIS ar waith mewn clwstwr Meddygon Teulu. Y nod yw cynyddu adnabyddiaeth gynnar o gam-drin mewn gofal sylfaenol i hyrwyddo atgyfeiriadau a chyfeirio priodol. Mae tri chlwstwr Meddygon Teulu mewn sir arall wedi mynegi awydd i gymryd rhan yn y cynllun peilot sydd bellach wedi'i ariannu'n llawn gan y Bwrdd Iechyd. Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso'n llawn a bydd yr hyn a ddysgir ohono yn cael ei ddefnyddio i lywio gweithredu rhaglen IRIS i yng Ngheredigion.

Sylw: Mae'r rhaglen IRIS³⁵ (*Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch*) yn fodel hyfforddi, atgyfeirio ac eirioli i helpu clinigwyr i roi cymorth i'w cleifion y mae trais a cham-drin domestig yn effeithio arnynt ac i godi ymwybyddiaeth ohono o fewn meddygfeydd cyffredinol. Mae IRIS yn darparu hyfforddiant arbenigol i weithwyr clinigol proffesiynol a staff gweinyddol mewn meddygfeydd Meddygon Teulu lleol. Mae ei hyfforddiant yn helpu clinigwyr i adnabod ac ymateb i gleifion y mae trais a cham-drin domestig yn effeithio arnynt ac mae'n darparu llwybr atgyfeirio uniongyrchol at eiriolwr a enwir mewn gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol lleol.

Nod IRIS+ yw archwilio ymarferoldeb addasiad o IRIS i weithio gyda dioddefwyr gwryw a benyw, cyflawnwyr gwryw a benyw a phlant. Mae IRISi yn gweithredu fel ymgynghorydd ar y prosiect hwn, gan roi cyngor ar ddatblygu'r deunyddiau hyfforddi a'u cyflwyno i glinigwyr. Mae ymyriad diwygiedig yn cael ei gynnal ym Mryste a Chaerdydd a bydd yn cael ei werthuso'n llawn maes o law.

³⁵ <https://irisi.org/>

- 12.21 Yn ogystal, mae pob meddygfa Meddyg Teulu yn y rhanbarth wedi cael gwybod am ei chyfrifoldebau mewn perthynas ag adnabod cam-drin domestig a chymryd camau priodol trwy lythyr gan Gyfarwyddwr Meddygol Cyswllt y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cwblhau rhestr wirio Dangosyddion Risg ac ystyried atgyfeiriadau i MARAC.
- 12.22 Mae meddygfeydd Meddygon Teulu hefyd wedi cael gwybod sut i gael mynediad at hyfforddiant Dewis Choice ac wedi cael manylion am y canllawiau i ymarferwyr. Mae argymhelliad wedi'i wneud i Is-grŵp Cyfathrebu Rhanbarthol VAWDASV y dylid cyhoeddi'r 'Canllawiau i Ymarferwyr: Trawsnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig yn Hwyrach mewn Bywyd' ar ffurf crynodeb er hwylustod i ymarferwyr. Mae Canllawiau Arfer Da VAWDASV Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Anarbenigol ar Weithio gyda Chyflawnwyr sy'n Oedolion hefyd wedi cael eu dosbarthu i feddygfeydd Meddygon Teulu ac mae ar gael ar fewnwyd diogelu'r Bwrdd Iechyd.
- 12.23 Mae meddygfeydd Meddygon Teulu hefyd wedi cael gwybod sut i gael mynediad at hyfforddiant diogelu a 'Gofyn a Gweithredu' ac wedi cael eu cynghori ynghylch sut i gael adnoddau ar gyfer cleifion a gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys y llinell gymorth Byw Heb Ofn. Mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn adolygu sut y gallant fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn y gwasanaethau dan gontract hyn, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Ymarferydd VAWDASV Arweiniol ac Ymarferydd Diogelu a fydd yn gweithio i wella cysylltiadau â gofal sylfaenol. Yn fwy diweddar, mae meddygfeydd Meddygon Teulu wedi cael canllawiau Pathfinder Meddygon Teulu Rhanbarthol.

Sylw: Er bod Llywodraeth Cymru yn ariannu consortia rhanbarthol i ddarparu hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' sydd ar gael i bob meddygfa Meddyg Teulu, mae rhwystrau o hyd mewn manau o ran ariannu IRIS. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n flaenorol nad yw ariannu IRIS yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth, er gwaetha'r dystiolaeth o'i ganlyniadau llwyddiannus ym maes gofal sylfaenol.

12.24 **CYLCH GORCHWYL 5**

- **A oedd cyfleoedd wedi cael eu colli i asiantaethau ymyrryd mewn perthynas â cham-drin domestig rhwng Betty a John.**

12.25 Ni chollodd yr heddlu, y nyrs iechyd meddwl cymunedol na'r CIC gyfleoedd i ymyrryd mewn perthynas â cham-drin domestig rhwng Betty a John. Roedd unrhyw arwyddion y gallai cam-drin fod wedi bod yn digwydd ar lefel isel iawn ac yn cyflwyno John fel y dioddefwr a Betty fel y cyflawnwr posibl. Roedd y trothwyon ar gyfer atgyfeiriadau i asiantaethau eraill yn sylweddol fyr o gael eu cyrraedd.

12.26 Ar y llaw arall, roedd meddygfa'r Meddyg Teulu yn sicr wedi colli cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth asiantaeth, a gyda'r fantais o edrych yn ôl, mae'n cydnabod y dylent fod

wedi gwneud mwy ac yn derbyn mai mater o bwys y pryd hynny oedd nad oeddent yn ddigon ymwybodol o natur y gwasanaethau cam-drin domestig oedd ar gael na'r llwybrau i gael cymorth.

12.27

CYLCH GORCHWYL 6

- ***A oedd cam-drin alcohol yn ffactor yn y berthynas rhwng Betty a John, a oedd asiantaethau yn gwybod amdano, ac os felly, beth allai fod wedi cael ei wneud i ymyrryd?***

12.28

Mae cofnodion meddygol Betty yn dangos iddi gael ei disgrifio fel yfwr trwm flynyddoedd lawer yn ôl, yna yn 2016 roedd yn llwrymwrthod, a blwyddyn yn ddiweddarach roedd hi'n yfwr achlysurol. Pan gysylltodd Betty â'r CIC ddau ddiwrnod ar ôl i John alw'r heddlu i'w cartref ar gam ym Mehefin 2018, yn ogystal â dweud ei bod yn ymosodol tuag at John a'i bod yn difrodi'r tŷ, dywedodd ei bod yn yfed trwy'r dydd. Pan aeth i weld y Meddyg Teulu ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach, datgelodd hefyd ei bod hi wedi bod yn yfed mwy, gan roi'r bai ar ei gŵr (mae'n debyg nad oedd y Meddyg Teulu wedi gofyn am unrhyw esboniad ynglŷn â'r hyn a olygai trwy ddweud mai bai John oedd hynny). Ni chynigiwyd unrhyw gymorth i Betty am ei defnydd o alcohol ac ni soniwyd ymhellach am ei lefelau yfed alcohol mewn ymgynghoriadau dilynol â'r Meddyg Teulu (mae Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed wedi dweud wrth yr adolygiad hwn mai'r lleiaf y bydden nhw wedi disgwyl byddai cael sgwrs ymyriad byr â Betty am wasanaethau cymorth, ac y gallai John fod wedi cael cynnig cymorth 'Person Arall sy'n Pryderu').

12.29

Nid oes unrhyw awgrym bod John yn yfed gormod o alcohol neu pan oedd yn yfed yn y dafarn leol gyda ffrindiau bod hynny wedi cael effaith andwyol ar ei berthynas â Betty.

12.30

CYLCH GORCHWYL 7

- ***A oedd unrhyw un yn ystyried bod Betty mewn perygl o niwed, ac a gafodd y pryderon hynny eu rhannu a'u gweithredu arnynt.***

12.31

Nid oedd unrhyw un yn meddwl bod Betty mewn unrhyw risg o niwed gan John a does dim byd i awgrymu bod Betty yn meddwl hynny ychwaith.

13. GWERSI A DDYSGWYD GAN ASIANTAETHAU

13.1

Mae pawb sy'n ymwneud â'r adolygiad hwn yn gwerthfawrogi pa mor hanfodol yw hi bod sefydliadau'n ystyried materion ynghylch cam-drin domestig a phobl hŷn ar lefel strategol ac mewn trefniadau partneriaeth, a'r angen i gynyddu'r cydgysylltu rhwng gofal sylfaenol, diogelu, a gwasanaethau cam-drin domestig i gydnabod bod y gofal hwnnw a'r materion dibyniaeth yn aml yn cydbblethu.

13.2 Mae cydnabyddiaeth hefyd o'r angen i dargedu pobl hŷn gyda deunyddiau a negeseuon penodol am gam-drin domestig a pheidio â chymryd yn ganiataol eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Mae bod yn ymwybodol y gall pobl hŷn fod yn llai tebygol o ddatgelu camdriniaeth a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gallu gofyn cwestiynau priodol a rhoi lle a chyfle i ddiodefwrwyr posibl siarad hefyd yn wersi allweddol a ddysgwyd. Hyd yn oed pe bai cymorth priodol ynghylch cam-drin domestig wedi cael ei gynnig i John, nid oes fawr o amheuaeth y byddai wedi'i wrthod oherwydd nid oedd yn gweld ei hun fel diodefwr. Wrth weithio gyda phobl hŷn felly, dylid codi cwestiynau ehangach yn y lle cyntaf am bynciau megis heriau mewn perthnasoedd cyn symud ymlaen i drafodaethau mwy penodol ynghylch cam-drin domestig posibl.

Sylw: Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo trwy VAWDASV yn sgil yr angen a nodwyd i wella arferion rhanbarthol ynghylch ymatebion i gam-drin domestig sy'n ymwneud â phobl hŷn. Maent wedi datblygu deunyddiau dysgu ALID penodol gan gynnwys sesiynau ar ardaloedd gwledig, diodefwrwyr gwryw a diodefwrwyr hŷn sydd â'r nod o wella ymarfer, cynyddu chwilfrydedd proffesiynol ac atgyfnerthu cysylltiadau â darparwyr cymorth arbenigol ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.

13.3 Mae'r Bartneriaeth Ranbarthol yn gweithio gyda goroeswyr ar draws y rhanbarth i adeiladu ar ymgysylltu â goroeswyr a fframwaith cyfathrebu. Y bwriad yw ymgysylltu â'r holl gymunedau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i ddefnyddio i lywio a gwella arferion a chynllun y gwasanaethau. Mae hefyd wedi ymgysylltu â Dewis Choice yn y gwaith i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau diodefwrwyr hŷn yn cael eu cynnwys.

13.4 Daeth yn glir yn ystod yr adolygiad bod angen i ofal sylfaenol nodi sut y gallant helpu mwy o bobl i dderbyn hyfforddiant diogelu a cham-drin domestig a monitro cydymffurfiaeth ag ef. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael cymorth dros y tair blynedd diwethaf gan yr Arweinydd Diogelu a Mynediad at Gyfiawnder yn Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn i gyflwyno hyfforddiant penodol ar gam-drin domestig a phobl hŷn, ond mae angen i werth hyfforddiant IRIS i feddygfeydd Meddygon Teulu cael ei ail-bwysleisio, ac fel y nodwyd yng nghylch gorchwyl 4 uchod, mae llawer o waith yn cael ei wneud yn hyn o beth.

13.5 Hefyd yng nghylch gorchwyl 4 nodir bod meddygfeydd Meddygon Teulu wedi cael eu hatgoffa sut i gael mynediad at hyfforddiant Dewis Choice ac maent wedi cael manylion am y Canllaw i Ymarferwyr ynghyd â'r canllawiau ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Anarbenigol ar Weithio gydag Oedolion sy'n Cyflawnwyr.

13.6 Mae Rhestr Wirio Adnabod Risg (RIC) DASH Cymru Gyfan newydd³⁶ wedi helpu i ffurfioli proses i archwilio rheswm claf dros ymgynghori â Meddyg Teulu, ac ystyried y goblygiadau ehangach gyda dadansoddiad strwythurol o hyfforddiant

³⁶ <https://www.scie-socialcareonline.org.uk/all-wales-risk-identification-checklist-ric-and-quick-start-guidance-for-domestic-abuse-stalking-and-honour-based-violence/r/a11G000000AxPCSA3>

diogelu yn cael ei gynnal gan staff y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael eu hyfforddi i lefel briodol.

Sylw: Mae hyn wedi cael ei drafod yn rhanbarthol a chytunwyd y bydd adolygiad o broses asesu risg DASH yn cael ei gynnal ar y cyd ag ymchwil academiaidd a chyda goroeswyr cam-drin domestig er mwyn sicrhau bod risg yn cael ei asesu er eu llesiant gorau.

14. CASGLIADAU

- 14.1 Nid oedd neb wedi rhagweld, ac ni allent fod wedi rhagweld, y byddai John yn debygol o ymosod ar Betty, heb sôn am y byddai'n achosi ei marwolaeth trwy weithred o drais.
- 14.2 Y dystiolaeth a ddarparwyd gan bobl oedd yn agos at Betty a John yw y byddai Betty weithiau'n ymddwyn yn ymosodol tuag at John heb unrhyw reswm amlwg, ei bod yn ei fwlio, a bod hyn yn digwydd yn amlach yn y blynyddoedd diwethaf. Maen nhw i gyd yn dweud bod John wedi dechrau poeni fwyfwy am iechyd meddwl Betty.
- 14.3 Nid oedd John byth yn ystyried ei hun yn ddioddefwr cam-drin domestig a hyd heddiw mae'n anghytuno ag unrhyw awgrym bod Betty wedi ei fwlio. Gofynnodd am gymorth gan yr heddlu a'i Feddyg Teulu ar gyfer iechyd meddwl Betty, a thrwy wneud hynny datgelodd wybodaeth a ddylai fod wedi ysgogi pryderon y gallai fod yn ddioddefwr lefel isel ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli. Cymerodd Betty y cam dewr o estyn allan am gymorth pan ffoniodd y CIC, ond er i'r wybodaeth gael ei throsglwyddo i'w meddygfa Meddyg Teulu, ni chafodd unrhyw beth ei wneud yn ei gylch.
- 14.4 O safbwynt clinigol, nid oedd gan feddygfa'r Meddyg Teulu unrhyw reswm dros gwestiynu gweithrediad gwybyddol Betty ac nid oedd dim i awgrymu nad oedd ganddi'r gallu i wneud ei phenderfyniadau ei hun. Er bod John yn rhwystredig na fyddai Betty yn derbyn cymorth, ni allai'r feddygfa orfodi unrhyw ymyrraeth arni. Mae ymarferwyr yn gyfarwydd â'r cyfyng-gyngor hwn; roedd Betty (a John) yn oedolion annibynnol oedd â'r hawl i annibyniaeth o ran gwneud eu penderfyniadau eu hunain.
- 14.5 Mae'r cyhoeddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – 'Cyflwr y Genedl: Trosolwg o heneiddio yng Nghymru' (2019)³⁷ yn dadlau er mwyn atal cam-drin pobl hŷn bod angen i weithwyr proffesiynol a'r gymdeithas ehangach fod yn fwy ymwybodol o gam-drin pobl hŷn, dylai pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sy'n profi cam-drin allu cael mynediad at wasanaethau cymorth, dylai pobl hŷn sy'n profi cam-drin gael mynediad at gyfiawnder cyfreithiol gydag atebolrwydd i'r rhai sy'n cam-drin, ac y dylid atal achosion o gam-drin pobl hŷn. Mae hefyd yn nodi nad oes un set ddata unigol ar hyn o bryd sy'n rhoi darlun cyflawn o'r raddfa a'r math o gam-drin a brofir gan bobl hŷn yng Nghymru.

³⁷ <https://olderpeople.wales/resource/state-of-the-nation-2019/>

14.6 Fodd bynnag, mae mentrau cyfredol sy'n ceisio cau'r bwllch yn y ddarpariaeth cymorth i bobl hŷn yn y rhanbarth, er enghraifft, ym mis Ebrill 2020 sefydlodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru grŵp gweithredu o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y gall pobl hŷn gael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth a throsedd³⁸. Fel rhan o'r gwaith, maent wedi cynhyrchu taflenni sy'n darparu gwybodaeth i helpu pobl i adnabod arwyddion cam-drin a'r gwahanol fathau o gam-drin, beth gall pobl ei wneud os ydynt yn pryderu am rywun arall, a ble y gallant fynd am gymorth a chefnogaeth. Yn ogystal, mae Prosiect HOPE³⁹ (Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu), sef prosiect partneriaeth rhwng Age Cymru, partneriaid lleol Age Cymru, a phartneriaid Age Connects Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru o dan y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023, yn darparu eiriolaeth i bobl hŷn (50+) a gofawyr ar draws Cymru. Un o argymhellion yr ALID hwn yw y bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cadw mewn cysylltiad â'r mentrau hyn i sicrhau y manteisir yn llawn arnynt yn rhanbarth Ceredigion.

15. ARGYMHELLION

15.1 Mae argymhellion generig ac asiantaeth-benodol i'w gweld isod. Ceir manylion am amserlenni ar gyfer eu cyflawni a phwy fydd yn gyfrifol am eu gweithredu yn y cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

15.2 CYNGOR SIR CEREDIGION

- 15.3
- *Bod y gweithgor VAWDASV penodol sy'n cael ei sefydlu yng Ngheredigion yn ystod hydref 2021 yn ymchwilio i'r cyfleoedd ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer gwasanaeth cam-drin domestig penodol i bobl hŷn neu ddarparu adnoddau ar gyfer un trwy Dewis Choice /Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru*
 - *Bod yr Is-grŵp Comisiynu VAWDASV Rhanbarthol, o fewn y gwaith o ddatblygu'r Fanyleb Gwasanaeth Rhanbarthol VAWDASV, yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gyflwynir gan fentrau cyfredol sydd â'r nod o gau'r bwllch yn y ddarpariaeth cymorth i bobl hŷn yn y rhanbarth, er enghraifft, grŵp gweithredu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'r prosiect HOPE*
 - *Bod Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu Rhanbarthol VAWDASV a Fframwaith Ymgysylltu a Chyfathrebu Goroewyr VAWDASV yn ystyried manteision sefydlu grŵp ffocws o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n bobl hŷn i archwilio'r materion yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a chael mynediad at wasanaethau.*

³⁸ <https://www.olderpeoplewales.com/en/stopping-abuse/action-group.aspx>

³⁹ <https://www.ageuk.org.uk/cymru/>

15.4 HEDDLU DYFED-POWYS

- 15.5 ➤ *Bod Heddlu Dyfed Powys yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar ddiodefwyr VAWDASV hŷn penodol a'u bod yn rhannu ac yn annog pob heddw as i gael mynediad at y deunyddiau dysgu ALID ar-lein sydd ar gael, gan gynnwys sesiynau ar diodefwyr hŷn ac ardaloedd gwledig.*

15.6 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL HYWEL DDA

- 15.7 ➤ *Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda rannu a hyrwyddo'r deunyddiau hyfforddi thematig rhanbarthol mewn ymateb i laddiadau domestig, gan gynnwys y rhai ar fyw mewn ardal wledig.*
- *Bod cynllun peilot IRIS I Sir Gaerfyrddin yn cael ei werthuso'n llawn gyda'r nod o'i ehangu i'w ddefnyddio yng Ngheredigion*
- *Dylid darparu adnoddau i feddygfeydd Meddygon Teulu (gan gynnwys Dogfen Llwybr i Gymorth Rhanbarthol VAWDASV i Feddygon Teulu) i gyfeirio diodefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig*
- *Dylid nodi un pwynt mynediad mewn gofal sylfaenol i gydgyssylltu'r broses o ddsbarthu a gweithredu adnoddau*
- *Mae angen ail-bwysleisio gwerth hyfforddiant IRIS a dylid adnewyddu'r cynigion i weithredu cynlluniau peilot IRIS mewn clystyrau Meddygon Teulu ynghyd ag adolygiad o ffyrdd o fynd i'r afael ag unrhyw fylchau ariannu. Os yw cyllid yn parhau i fod yn rhwystr, dylid hysbysu Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref yn unol â hynny*
- *Dylai Meddygon Teulu a'r nyrs practis ym Meddygfa Meddyg Teulu Betty a John fynychu hyfforddiant diogelu oedolion Lefel 2 a dylai ei holl ymarferwyr gwblhau hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu'. Dylid monitro cydymffurfiaeth o fewn gofal sylfaenol a'i adrodd i Weithgor Diogelu Strategol y BIP*
- *Dylid diweddarw polisi diogelu meddygfeydd Meddygon Teulu i ddisgrifio cyflwyniadau y dylid eu hystyried fel arwyddion posibl o gam-drin domestig ac sydd felly'n cynnig cyfleoedd i'r Meddyg Teulu wneud ymholiadau wedi'u hysgogi*
- *Dylid rhoi prosesau ar waith ym meddygfa'r Meddyg Teulu i sicrhau bod unrhyw negeseuon a dderbynnir am gam-drin domestig yn cael eu cyfleu ar unwaith i'r meddyg ar alwad, a bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi ar gofnodion cleifion*
- *Dylai negeseuon tebyg ddigwydd ar draws pob meddygfa yn y sir er mwyn sicrhau cysondeb*

- *Dylai'r BIP dynnu sylw at y ffaith bod y matricesau diogelu yn Offeryn Hunanasesu Llywodraethu Clinigol Cymru Gyfan wedi dyddio a bod angen eu hadolygu.*

ADRODDIAD TROSOLWG ADOLYGIAD LLADDIAD DOMESTIG